# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

Rhifyn 510 · Mehefin 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim


# Ysgol Tregarth yn ticio pob blwch yn rhagorol

**Mae'n bleser gan Lais Ogwan gyhoeddi bod un o'n hysgolion lleol wedi derbyn adroddiad hynod o ganmoliaethus yn ddiweddar gan fod tîm arolygu Estyn wedi dod i'r casgliad fod Ysgol Gynradd Tregarth yn rhagorol ym mhob un o'r pum maes arolygu a nodir isod. Er fod y pla coronafeirws wedi gwthio'r newyddion am lwyddiant yr ysgol i'r cefndir braidd, mae'n braf medru cyd-lawenhau gyda'r ysgol ar yr adeg hon o gloi mawr a llochesu. Dymunwn lwyddiant pellach iddynt hwy ac i bob ysgol arall yn y dalgylch. Dyma gipolwg ar rai o brif bwyntiau'r llwyddiant hwnnw gan nodi rhai o'r pethau sy'n gwneud Ysgol Tregarth yn rhagorol.**

Y pum maes arolygu oedd:

**1. Safonau – Rhagorol.**
O dan arweiniad y pennaeth, Mrs Lliwen Jones, mae disgwyliadau uchel gan yr holl staff yn sicrhau fod y disgyblion yn meithrin y meddylfryd sy'n eu galluogi i gyrraedd y safonau uchaf posibl trwy ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

**2. Lles ac agweddau at ddysgu – Rhagorol**
Mae parch a chwrteisi'r disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yno.

**3. Addysgu a phrofiadau dysgu – Rhagorol**
Dywedodd yr arolygwyr bod athrawon ac oedolion eraill yn trin pob plentyn yn gyfartal yn yr ysgol a bod ansawdd y dysgu yn uchel gyda chynllunio manwl a phwrpasol ymhob un o'r gwersi.

**4. Gofal, Cymorth ac Arweiniad – Rhagorol**
Mae ethos teuluol yn yr ysgol gyda pharch, cwrteisi ac ymroddiad gan y plant ac mae'r targedau dysgu unigol yn rhai synhwyrol. Rhoddir pwyslais cryf ar hybu iechyd corfforol meddyliol ac emosiynol y disgyblion.

**5. Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Rhagorol**
Mae'r pennaeth, Mrs Lliwen Jones, yn annog disgwyliadau uchel gan y staff a'r disgyblion a thrwy hynny mae'n gallu mynnu addysg o'r ansawdd uchaf poisibl.

Yn y lluniau isod gwelir enghraifft o'r gwahanol gynghorau a phwyllgorau sy'n sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog i holl weithgareddau'r ysgol. Dyma nodwedd a adnabuwyd fel cryfder gan Estyn.

Wrth sôn am y plant yn y lluniau isod dywedodd Llinos Williams, Dirprwy Bennaeth yr ysgol, "Fe fu'r plant yma'n trafod, yn esbonio, ac yn cael eu holi ynglŷn â'u rôl a'u cyfraniadau hwy yn hir a thrwyadl gan yr arolygwyr, ac roedd pob un ohonynt wedi gwneud hynny'n effeithiol ac yn hyderus, gan arddangos balchder yn eu hysgol."

**Parhaed y gwaith da**
Gall plant, staff, a holl weithwyr cefnogol Ysgol Tregarth fod yn falch o'r adroddiad hwn a gobeithiwn weld mwy o lwyddiant yn dod i blant yr holl ardal yn y dyfodol.



Cyngor Ysgol – Ysgol Tregarth



Cyngor Eco – Ysgol Tregarth

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**CADEIRYDD:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Derfel Roberts.

Y golygydd ym mis Gorffennaf fydd Rhodri Llŷr Evans, 2 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP
07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**PWYSIG: TREFN NEWYDD O RIFYN IONAWR YMLAEN GOFYNNIR I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD 5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 27 Mehefin** os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
**01248 353604**
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20 | Llewela O'Brien er cof am ei mam, Catherine Mary Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw yn 60 oed ar 4 Mehefin 1978, ac i gofio am ei phenblwydd ar 17 Mehefin. |
| £20.50 | Deri a Megan Tomos, Sychnant, Llanllechid. |
| £14.50 | Lynn a Stephen, Cilgeraint Isaf. |

**Diolch yn fawr**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Yn anffodus, nid yw'n bosib i ni ddod at ein gilydd i dynnu'r gwobrau yn ôl ein harfer hyd nes y codir y gwaharddiadau coronafeirws presennol.

Bryd hynny byddwn yn ôl-ddyddio'r gwobrau o fis Ebrill ymlaen.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

# Lansiad Digidol Ogwen360

Dechrau'r flwyddyn, trafodwyd sawl syniad am lansiad swyddogol Ogwen360 gyda'r gymuned leol, a phenderfynwyd mai yn y cyfnod yma y byddai hyn yn digwydd – Ond yn amlwg, nid yw hyn yn bosib.

Wrth i ni addasu trefn ein bywyd personol i ymdopi â'r cyfnod yma, mae ein mudiadau a'n cymunedau wedi bod yn addasu hefyd. Ac mae gan bawb yr un nod – cynnal cymdeithas, a chynnal y cyswllt rhwng pobol er lles ein gilydd. Mae Llais Ogwan hefyd wedi addasu yn y cyfnod yma. Gyda chyfyngiadau yn atal dosbarthu copïau print i'r siopau, mae Llais Ogwan yn un o 30 o bapurau bro Cymru i ddefnyddio Bro360.Cymru er mwyn gallu cyhoeddi ar-lein.

Ond, er nad yw hi'n bosib symud ymlaen gyda'r lansiad gwreiddiol ar hyn o bryd, mae **Ogwen360**, fel sawl un arall, wedi addasu, ac am lansio'n ddigidol yn ystod mis Mehefin!

O ddydd Llun, Mehefin 15 ymlaen, bydd sawl stori aml-gyfrwng yn cael eu rhyddhau ar Ogwen360, gydag uchafbwynt yr wythnos y cyrraedd ar ddydd Gwener, Mehefin 19. Ar y dyddiad yma, bydd diwrnod llawn digwyddiadau ar Ogwe360, gan gynnwys pethau fel gwersi celf, cyflwyniad hanesyddol, a set byw o gerddoriaeth. Bydd y rhain yn cael eu rhyddhau ar y wefan, ac ar ein cyfryngau cymdeithasol. Gwyliwch allan am amserlen lawn, a chysylltwch gyda Guto os da chi ffansi bod yn rhan o'r diwrnod! gutojones@golwg.com

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Sylwadau Barbara ar ein Bywyd Gwahanol**

Pe gofynnai rhywun sawl wythnos sydd ers cychwyn cyfnod y "Cloi", byddai'n rhaid imi gyfaddef nad wyf yn cofio. Mae'r dyddiau a'r wythnosau wedi dechrau ymdoddi i'w gilydd yn y modd rhyfeddaf, a ninnau'n dod i arfer â ffordd gwbl ddieithr o fyw ein bywydau bob dydd.

Mae'r ffermwyr a'r garddwyr yn gweddïo am law, a ninnau drostyn nhw; ond a deud y gwir, mae'r tywydd cynnes wedi gwneud hi gymaint yn haws i ddygymod â'r gaethiwed. Pe bai hi mond yn glawio yn y nos!

Ar ran yr henoed, rydym wedi cael hyd i goesau oedd, yn ein tŷb ni, wedi gweld eu dyddiau gorau erstalwm. Mae ambell i feic wedi cael ei lusgo o'r cysgodion, hefyd! Cymaint yw'r temtasiwn i neidio i'r car, gan fynnu nad oes gennym amser i gerdded! Wel, 'dyw diffyg amser ddim yn esgus o fath yn y byd y dyddiau hyn, mae arna'i ofn.

Wrth rodio'r llwybrau ym mhen isaf Dyffryn Ogwen, rydym wedi cael gweld ein bro ar ei harddaf: mawr ein braint!

Rhaid canmol plant a phobl ifainc Talybont, a'u rhieni. Mae difyrru plant o wahanol oedrannau gartref drwy'r dydd, heb eu ffrindiau, yn waith anodd a blinedig, ac mae pob teulu wedi llwyddo'n ardderchog. Does dim diwedd ar eu dyfeisgarwch; nac ar eu caredigrwydd at eu cymdogion, chwaith.

Mae rhai o'n pobl ifainc wedi gorfod sefyll arholiadau dros y Rhyngrwyd, ac eraill yn disgwyl canlyniadau wedi'u seilio ar eu gwaith blaenorol. Mae'n amser ansicr ac annifyr iddynt i gyd. I bob un ohonoch, beth bynnag bo'ch planiau, anfonwn ddymuniadau gorau at y dyfodol.

I bawb sy'n gaeth i'w gartref, ac i bob un o'r pentref sydd mewn Cartref Gofal, anfonwn ein cofion cynhesaf atoch. Daw diwedd ar hyn ryw ddydd, ond inni fod yn amyneddgar a gofalus.

**Taro'r 90**

Yn sicr, un o'r pethau anoddaf, i rhyw greaduriaid cymdeithasol fel ni, yw peidio dod at ein gilydd i ddathlu. Cyrhaeddodd Mrs Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, ei phenblwydd yn naw deg ar y diwrnod olaf ym mis Mai, ond, o dan y drefn bresennol, 'chafodd fawr neb o'i ffrindiau fynd ati i'w chyfarch.

Enfys, mae pawb yn anfon eu dymuniadau gorau atat, ac at Llew sydd, ar hyn o bryd, ym Mhlas Ogwen. Gobeithio y cawn gyfle i ddathlu yn y dyfodol gweddol agos.

**Yn 18 oed**

Y diwrnod cynt, cafodd Siôn a Llion, 20 Cae Gwigin, eu penblwydd yn 18 oed. Mae'n siwr y cewch chitha gyfle i ddathlu efo'ch ffrindiau cyn bo hir, hogia'.

Yn y cyfamaser, llongyfarchiadau a phob bendith i'r ddau ohonoch.

**Ysbyty**

Mae Keith, 13 Dolhelyg, yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddo.

# Canolfannau Ailgylchu yn ail- agor

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd pump o'i wyth canolfan ailgylchu yn ailagor i geir yn unig wythnos nesaf.

Er mwyn defnyddio'r gwasanaeth, bydd rhaid trefnu amser penodol ar-lein ymlaen llaw drwy gysylltu â'r cyngor.

Yn ogystal â chanolfan ailgylchu Llandygai, Bangor bydd canolfannau ailgylchu Caernarfon, Dolgellau, Harlech a Phwllheli hefyd yn agored rhwng 9yb a 4yh o ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn.

"Yn dilyn y newid diweddar rydan ni'n falch ein bod ni wedi gallu datblygu system newydd a fydd yn ein galluogi ni i ailagor pump o'n canolfannau ailgylchu yn ddiogel yr wythnos nesaf", meddai'r Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd.

"Er mwyn i'r trefniant newydd hwn weithio, rydan ni'n apelio ar drigolion Gwynedd i fod yr un mor ystyriol ag maen nhw wedi bod ers cychwyn y cyfyngiadau."

Disgwyl ciwiau

Ychwanegodd y cynghorydd: "Mae'n bosib y bydd ciwiau ar adegau wrth i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith – gofynnwn ichi fod yn amyneddgar a pharchu'r staff a fydd yn gwneud eu gorau i gael pawb trwy'r ganolfan mor ddiogel ac mor gyflym â phosib.

"Mae'r neges aros adref yn dal mewn grym yng Nghymru – a dim ond os nad ydyn nhw'n gallu storio eitemau'n ddiogel adref, neu os nad oes modd casglu'r eitemau fel rhan o gasgliadau ailgylchu wythnosol y Cyngor, y dylai trigolion ystyried teithio i'n canolfannau ailgylchu.

Ni ddylai pobol sy'n dangos symptomau COVID-19, na'r rheini sy'n byw yn yr un tŷ â rhywun sy'n dangos symptomau o'r feirws neu â rhywun sy'n cael eu gwarchod, ymweld â'r canolfannau ailgylchu.

# Marchnad Ogwen

Daeth newyddion trist i sylw stondinwyr, cwsmeriaid a ffrindia' Marchnad Ogwen yn ystod mis Mai. Bu farw Mrs D. Williams, mam Lynda (Crefftau Howget) a nain Elin (Popty Pritch). Rydym i gyd yn meddwl amdanoch a'r teulu oll ac yn anfon ein cydymdeimlad diffuant atoch i gyd.

Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau y gellir eu gwneud i ail agor y Farchnad yn Neuadd Ogwen - a gallu sicrhau cadw pawb yn ddiogel. Bydd rhaid disgwyl peth amser eto yn anffodus. Byddwn yn sicr yn agor mor fuan â phosib gan ein bod i gyd yn colli bore Sadwrn Marchnad yn fawr! Yn y cyfamser, mae posib prynu cynnyrch tair o'n stondinau bwyd ni trwy Cadwyn Ogwen. Mae Cosyn Cymru, Cypcêcs Lois a Cynnyrch Chwarel Goch yn gwerthu ym maes parcio Cae Star ar ddydd Gwener yn ogystal â thrwy wefan Cadwyn Ogwen.

Ein cofion at bawb o'n cwsmeriaid gan obeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn gallu ymdopi ar yr adeg anodd yma.

# Edward Hugh Davies

## Gan Andre Lomozik

Yn rhifyn Mawrth y llynedd adroddais hanes William Parry (Bwtsiar). 'Roedd ei ferch, Mair Jones (Parry), o Windsor wedi anfon ataf yn adrodd hanes ei thad yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, yn rhan o 'Allenby's March' yn Jerusalem, yn 1917. Yna ym mis Ionawr eleni cefais lythyr gan Mr John Ffrancon Davies, yntau yn byw yn Windsor ers blynyddoedd maith, ond yn wreiddiol o Fethesda, ac yn derbyn y Llais yn rheolaidd. Yn ei lythyr adroddodd hanes ei daid, Edward Hugh Davies, milwr cyffredin 356018, oedd wedi ymuno a'r 25$^{th}$ Montgomeryshire & Welsh Yeomanry Battalion, R.W.F. ar yr 22$^{ain}$ o Awst 1914. Roedd Edward Hugh Davies yn wreiddiol o Fangor, ac fe briododd ferch o'r enw Margaret Ann Davies, o Rhyd-y-Groes, Pentir. Ganwyd chwech o blant iddynt, gyda thri ohonynt yn byw am ran helaeth o'u bywydau ym Methesda, sef Annie Mary (Braichmelyn a Glanffrydlas), Hugh (2 Maes Coetmor) ac Emlyn, tad John Ffrancon Davies, (24, Maes Coetmor). Yn ei lythyr mae Mr Davies yn adrodd fod ei daid wedi ei ladd ar y 30$^{ain}$ o Dachwedd, 1917, yn 36 mlwydd oed, mewn brwydr tua 10 milltir oddi allan i Jerusalem. Mae Edward Hugh Davies wedi ei gladdu yn Mynwent Rhyfel Jerusalem, ac mae'r arysgrif yma ar ei garreg bedd. "He has made a covenant with me by his sacrifice" Salm 50 (5) (Mae wedi gwneud cyfamod a fi trwy ei aberth).

Yn ystod y flwyddyn 1915, fe gafodd Edward anaf i'w law, ac roedd yn rhaid iddo dreulio ychydig amser yn Creek Hospital, Alexandria.

Yn 'Y Llan' Mawrth 15, 1918, t.4, cawn yr adroddiad yma. "MISSING.- Nid oes hyd yn hyn ddim gwybodaeth benodol pa le y mae Private Edward Hugh Davies, Rhydygroes, Pentir. Pa un ai yn garcharor, yn glwyfedig mewn clafdy, neu rhywbeth arall. Mae ei briod a'r teulu a llawer o gyfeillion iddo, yn naturiol, mewn pryder nid bychan o'r herwydd. Mae'r ardal mewn cydymdeimlad dwfn â'r teulu i gyd, ac yn disgwyl am newydd ffafriol bob dydd. Ein dymuniad cyffredinol yw ei weled yn dychwelyd yn ôl, a hynny yn fuan."

Roedd nain John Ffrancon Davies wedi anfon at yr awdurdodau yn holi am wybodaeth ynglŷn a'i gŵr, ac ymhen ychydig amser derbyniodd y llythyr canlynol ganddynt. Roedd y llythyr wedi ei ysgrifennu gan Rhingyll Varley, yn adrodd hanes marwolaeth ei gŵr. "Dear Madam, I regret to say your husband was killed near me, he never spoke shot through the head, and I laid by his side for 9 hours as we could not move. He was a very brave and good soldier, and we are very sorry to lose him. Sympathy with you in your loss".

Yna ar Fai y 10, 1918, yn 'Y Llan' t. 4, mae'r adroddiad yma am wasanaeth coffa Edward Hugh Davies i'w weld. "PENTIR, GWASANAETH COFFA.- Cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Edward Hugh Davies, Rhyd-y-groes, milwr ffyddlon er y flwyddyn 1914. Ymunodd â'r ffyddin yn wirfoddol yn nechrau y rhyfel ofnadwy presennol. Perthynai i'r 6$^{th}$ Batt. R.W.F. Bu allan yn y Dardanelles a Gallipoli, lle y dioddefodd oddi wrth y 'enteric'. Wedi gwella i'w gynefin iechyd, ymunodd â'r 25$^{th}$ Batt. R.W.F. Aeth allan gyda'r Egyptian Expeditionary Force. Bu mewn brwydrau yn Gaza a glannau yr Iorddonen. Collodd ei fywyd yn Palestina, Tachwedd 30$^{ain}$ 1917. Rhoddwyd ei weddillion marwol i orwedd yn y 'Tir Sanctaidd' gan ei gymdeithion yn barchus, ac yntau yn 37 mlwydd oed, hyd glaniad udgorn yr adgyfodiad. Yr oedd Eglwys St Kedol yn orlawn nos Iau, dydd St. Marc, 25$^{ain}$ cyfisol, o'i gyfeillion, perthnasau, a chydnabod iddo, yn mhlwyf Pentir. Daethant o bob cwr i'r plwyf i dalu parch i'w goffadwriaeth, ac i fawrhau yr aberth a wnaeth dros ryddid ei wlad.

Yr oedd yn aelod o Eglwys Pentir, ac yn weithiwr ffyddlon gyda'r Ysgol Sul. Cofiwn yn dda am Davies yn cymeryd rhan flaenllaw gyda'r Diwygiad yn 1905. Yr oedd ei holl fryd yn y symudiad, ac ni wnaeth neb fwy nag ef yn y cyfarfodydd gweddi yn Glasinfryn. Mae yn galaru yn ddwys ar ei ôl briod serchog a chwech o blant bychain. Boed nef yn dangnef iddynt. Yr oedd y gwasanaeth yn gorawl: pedair emyn, a'r chant ar "Yr awr hon Arglwydd y gollyngi dy was". Mrs Herbert Jones yn chwareu yr offeryn. Cymerwyd rhan gan y Parchn. Herbert Jones, J. H. Parry, D. T. Williams (C.M.) Traddodwyd anerchiad wir alluog gan y Parch H. Jones, oddiar Ll. Tim. II. 2."

Mae Mr. Davies yn tynnu sylw at y ffaith fod William Parry a'i daid, Edward Hugh Davies, ill dau wedi bod yn ymladd yn y Dwyrain Canol tua'r un pryd, a'i fod o a Mair Jones (Parry) ill dau, trwy gyd-ddigwyddiad, yn byw yn Windsor yr holl flynyddoedd yn ddiweddarach.


SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Sefydlwyd 1969
m.hughes
a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 602537


## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

**Newyddion Ebrill** (Ymddiheurwn am fethu cynnwys yr eitemau hyn yn ein rhifyn diwethaf)

**Penblwydd hapus arbennig**
Penblwydd hapus arbennig iawn i Ann Williams Stryd y Ffynnon yn 70 oed.
Dwi'n siwr y bydd cyfle i ddathlu "go iawn" yn y dyfodol agos.

**Cydymdeimlo**
Gyrrwn ein cydymdeimlad i Gwyn a Paula Williams Ffordd Gerlan.

Bu farw mam Gwyn, Mrs Medi Williams yn gynharach yn y mis. Cofion cynhesaf atoch fel teulu.

'Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gydag Edwina Griffiths, Robin Evans a'r hogia yn Stryd yr Allt. Bu farw Dennis Griffiths, tad Edwina, yn dawel yn ei gartref ac yntau'n 95oed. Mae'n cydymdeimlad hefyd efo Marilyn, Falyri, Delyth, Geriant a'u teuluoedd wrth golli tad a thaid arbennig.

**Croeso i'r Byd!**
Croeso i'r Gerlan ac i'r byd i Tomi Huw Elis Jones, mab i Dei a Lel, Stryd Fer. Llongyfarchiadau a llawer o gariad gan bawb o'ch teuluoedd ym Methesda, Bangor, Borth ac wrth gwrs, Waunfawr.

**Diolch pobl Gerlan**
Dros yr wythnosau nesaf bydd y Caban Cysgu yn agor ei ddrysau i ymwelwyr arbennig iawn – 5 o nyrsus lleol sydd yn dewis gwarchod eu teuluoedd a byw arwahân iddynt am gyfnod tra'n gofalu am gleifion. Er mwyn rhoi croeso cynnes haeddiannol iddynt, gwnaed apêl am anrhegion iddynt. Mae nifer o drigolion Gerlan wedi cyfrannu'n hael ac mae'r nyrsus eisiau diolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd arbennig ac yn arbennig am y cardiau a'r lluniau.

**Cofion at bawb**
'Rydym yn cofio at bawb ymhell ac agos yn ystod y cyfnod anodd yma.
Cofiwch bod help ar gael i unrhyw un sydd yn hunan ynysu. Codwch y ffôn neu gyrrwch neges – fyddai'n siwr o drio helpu. Caren ☺

**Newyddion Mai**
**Nain a taid eto!**
Llongyfarchiadau mawr i Richard a Rhian Ogwen o'r Ardd Fawr – maent yn nain a taid unwaith eto. Mae Laura a Daniel Ogwen wedi dod yn rieni newydd i Enya. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau hefyd a chroeso i'r byd Enya fach.

**Crwydriaid Gerlan**
Yn ystod y clo mawr a'r llochesu mae 3 iâr wedi bod ar grwydr o gwmpas Gerlan ac yn codi calon pawb wrth iddynt ymweld â thai a gerddi. Heti a Beti ydi enw dwy ohonynt yn tŷ ni – mae nhw hyd yn oed wedi bod yn y tŷ!

**Penblwydd arbennig**
Trodd Peter Brown Gwernydd yn 75 ar y 27ain o Fai. Penblwydd hapus arbennig iawn iddo. 'Roedd o wrth ei fodd yn clywed negeseuon caredig pawb ar Facebook.

**Damwain**
Ychydig wythnosau'n ôl, cafodd Deio Williams, Ffordd Gerlan, ddamwain a fyddai wedi gallu bod yn un hynod ddifrifol. Er i'r Ambiwlans Awyr a 2 ambiwlans gael eu galw, llwyddodd Deio i ddod adref o'r ysbyty'n ddiogel a dim ond crafiad ar ei drwyn. Dan ni mor falch bod chdi adra'n saff Deio – cadwa'n ddiogel.

**Diolch**
Dymuna Euryl, Gerwyn a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli y diweddar Mrs Glenys W Lloyd Jones, Glanffrydlas a gynt o'r Gerlan. Diolch i bawb fu'n rhan o'r gwasanaeth angladd ac am y rhoddion ariannol dderbyniwyd er cof amdani. Trosglwyddwyd £1,400 i Ymchwil Dementia o ganlyniad i garedigrwydd teulu a ffrindiau da.

## Pantri Pat

### Teisen Sbwng gyda Chnau Ffrengig, Hufen menyn a Choffi



Popty 175 gradd – silff ganol.
2 dun 7 modfedd wedi eu leinio neu eu brwsio gyda menyn a phinsiad o flawd.
3-4 owns o fenyn di-halen.
3-4 owns o siwgwr powdwr.
Pwyswch 3 ŵy (gall fod yn 6, 6.3 neu 6.5 owns). Faint bynnag yw'r pwysau, rhowch yr un pwysau o flawd codi, o siwgwr, ac o fenyn meddal neu farjarîn.
Hidlwch y blawd gyda llwy de o bowdwr codi.
Rhowch y cwbl gyda'i gilydd mewn powlen a'i guro gyda churwr trydan.
Pan fydd y cwbl yn llyfn, ychwanegwch y cnau Ffrengig wedi eu torri, a chymysgu'r cwbl yn dda.
Rhannwch y cymysgedd rhwng y 2 dun a'u rhoi ar y silff ganol yn y popty am 20-25 munud.
Gwnewch yr hufen menyn gyda'r siwgwr powdwr a'u cymysgu'n dda tan fydd yn ysgafn a thebyg i hufen tew.
Rhowch 1 lwy de go dda o goffi mewn cwpan gydag ychydig bach o ddŵr berwedig a'i gymysgu i mewn i'r menyn.
Gadewch i'r teisennau oeri ar hambwrdd weiren. Wedyn rhannu'r hufen menyn rhwng canol a phen y deisen.

**Mwynhewch!**

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 298763

**Modurdy Central**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

# Ysgol Llanllechid




**Llwyddiant yn Eisteddfod T**
Roedd Eisteddfod T eleni yn wahanol iawn i'r arfer; Eisteddfod a oedd yn gofyn am sgiliau technolegol o'r radd flaenaf oedd hon, yn ogystal â'r gallu i berfformio i safon uchel! A dyna'n union y llwyddwyd i'w gyflawni gan rai o ddisgyblion Ysgol Llanllechid wrth iddynt ganu Ar hyd y Nos! Llongyfarchiadau gwresog felly i'n grwp Ensemble Lleisiol sef Gwenno, Erin, Seren, Mali, Angharad, Gruff, Casi Gwawr, Elliw a Llinos ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod T. Proses wahanol oedd canu ar eu haelwydydd i ddechrau, cyn trosglwyddo'r cyfan i ddwylo medrus Mrs Delyth Humphreys, a'u hyfforddodd. Roedd hi'n fraint eich gweld yn ymddangos ar y teledu, a'r gwaith caled wedi dwyn ffrwyth! Da iawn chi! Profiad a hanner! Llongyfarchiadau gwresog!

**Cân i gofio am Ms Lliwen**
Edrychwn ymlaen fel ysgol at y cyfle i ganu cân Ms Lliwen, ar ôl y cyfnod hwn, a diolch i Mr Griffith Richard Williams, tad Mrs Humphreys, am ysgrifennu'r geiriau teimladwy.

**Gwnewch bopeth yn Gymraeg!**
Dyna oedd y gân yr oedd disgyblion Ysgol Llanllechid yn awchu i'w chlywed ar Radio Cymru, ar ôl mynd ati i'w dysgu ar gyfer ein cyngerdd Gwyl Ddewi. Mwyniant pur oedd gwrando arni ar raglen Swyn y Sul gyda Sioned Webb. Diolch i Hogiau Llandygai am ein hysbrydoli! Bythol wyrdd!

**Cyfnod Cofid**
A ninnau fel ysgol yn dal ati i fod yn Ganolfan Warchod yn ystod yr amser od ar y naw yma, diolchir i bawb am eu cymorth a'u hynawsedd. Diolch i chi rieni sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd ac yn y gymuned am eich gwaith amhrisiadwy ac am eich geiriau caredig a'ch caredigrwydd tuag atom yma. Diolch i chithau hefyd sy'n cerdded ar hyd Lon Fach Odro am ddod i ddweud helo wrthym, drwy'r ffens, gan gadw lled braich a braf yw gweld Mrs Helen Williams yn cerdded am dro'n ddyddiol gyda'i mab, Mr Dafydd Williams. Mae'r cyfnod yn parhau i lusgo yn ei flaen, a heulwen gynnes, ddyddiol mis Mai yn lleddfu rhywfaint ar ein caethiwed. Cafwyd cyfnodau o arddio ac eistedd o dan ein coeden geirios hardd odiaeth, yn gwrando ar suo'r gwenyn a'r adar yn pyncio, a hynny o dan awyr ddigwmwl. Mae'n gyfnod i aros ac oedi, a chyfnod sy'n rhoi cyfle i werthfawrogi cyfoeth byd natur o'n cwmpas; a'r cyfan tra pery'r bwgan bygythiol i ddangos ei ddannedd, nepell oddi wrthym.

**Dinasyddion Byd-Eang**
Ar y pedwerydd ar bymtheg o Fai, roedd delwedd Google, a ymddangosodd ar ein cyfrifiaduron i gyd, yn golygu llawer i ni yma yn Ysgol Llanllechid. Ydych chi'n cofio'r llun du a gwyn? Gwr ar ei liniau mewn gorsaf drenau yn Harwich, yn derbyn plant bach o Iddewon o Ewrop; plant lle cyfarfu eu rheini â marwolaeth erchyll yn Auschwitz. Llwyddodd Nicholas Winton i achub 669 o blant, o grafangau milain y Natsiaid, yn 1938, drwy drefnu cludiant iddynt ar drenau o Prague i Lundain. Llwyddodd hefyd i ddarganfod llety i bob un ohonynt, ymhell ac agos, gan bobl oedd yn fodlon agor eu cartrefi i gynorthwyo yn yr ymgyrch o sicrhau dyfodol i'r rhai bach hyn.

Fel rhan o raglen waith Dinasyddiaeth Fyd Eang, astudiodd ein disgyblion yr hanes a chael eu cyfareddu, a sylweddoli ar y pryd, fod y gŵr rhyfeddol hwn ar dir y byw; er mewn gwth o oedran. Aethpwyd ati i ddylunio cerdyn penblwydd anferth iddo, o dan arweiniad Ms Hanna Huws, a derbyniodd y disgyblion lythyr diolchgar gan ei ferch.

Meddai Gwydion Rhys, "Mae'r hanes wedi aros hefo fi a gwnaeth argraff fawr arnaf."

Roedd y disgyblion wedi dotio at y ffaith na wnaeth Nicholas Winton yngan gair am ei weithredoedd am bron i hanner can mlynedd! Roedd y ffordd y bu iddo wneud safiad yn enw daioni; ei ddewrder a'i flaengarwch yn ysbrydoli pawb ohonom.

Ychwanegodd Mr Gareth Ffowc Roberts, "Roeddwn yn adnabod Heini Halberstam, un o'r plant a achubwyd gan Nicholas Winton pan oedd yn Athro Mathemateg ym Mhrifysgol Nottingham yn y chwedegau."

Cofiwn am Nicholas Winton fel dyn a weithredodd yn erbyn yr holl rwystrau a wynebai, er mwyn helpu ei gyd-ddyn mewn cyfnod o ormes, ffieiddra ac anghyfiawnder.




Nicholas Winton yn dal y cerdyn penblwydd a gafodd gan blant Ysgol Llanllechid.

## Ysgol Llanllechid

**Croeso**
Croesawn Mr Gethin Thomas atom i'r dalgylch fel prifathro ar Ysgolion Penybryn ac Abercaseg. Yn yr un modd, croesawn Mrs Llinos Williams, sy'n cymryd yr awennau yn Ysgolion Tregarth ac Abercaseg. Pob dymuniad da! Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Lliwen Jones, sydd ar hyn o bryd ar gyfnod mamolaeth.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Mr a Mrs Dilwyn Pritchard a Mr a Mrs Emlyn Williams, yn eu profedigaeth o golli Mrs Dorothy Williams yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefo teulu Anti Gillian a'r teulu ar golli Mr Islwyn Jones, taid annwyl Cynan. Yn ogystal, cydymdeimlwn â Ms Elen Clwyd Evans ar golli ei nain. Cofion atoch i gyd ac at eich teuluoedd.

**Diwydrwydd yn y Cartrefi**
Chwarae teg i'n disgyblion am fod wrthi'n ddygn yn eu cartrefi yn cwblhau pob math o dasgau! Dyma i chi luniau o rai ohonynt yn dangos eu creadigrwydd:





## Ysgol Abercaseg


Isod dangosir rhai lluniau o blant yr ysgol wrthi'n gwneud gwahanol dasgau yn ystod y cyfnod Covid-19.














**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Hannah ac Andrew Lomozik, Bryn Celyn, Penybryn, ar enedigaeth mab, Noah James Gustav, ar y 6ed o Ebrill, a hefyd i Graham ac Anne Dickerson, Caerfaddon, Gwlad yr Haf, ac Andre a Sylvia, Rhos y Coed, ar ddod yn nain a taid.

**Diolch**
**Mrs Medi Williams** – Dymuna Nia, Gwyn a theulu'r diweddar Medi Williams fynegi eu diolchgarwch diffuant i gymdogion, ffrindiau a pherthnasau am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Hen Nain annwyl. Gwerthfawogir pob neges, llythyr, cerdyn a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Gymorth Cristnogol a Ward Hebog. Diolch hefyd i Stephen Jones, trefnwyr angladdau am y trefniadau trylwyr a gofalus. Fe gynhelir Gwasanaeth Coffa yng Nghapel Jerusalem rhywdro yn y dyfodol pan fo'n ddiogel i wneud hynny.

**Mrs Margaret Roberts**
Ym mis Mawrth a hithau ar ddechrau'r cload, bu farw Mrs Margaret Roberts ym Mhlas Ogwen, Bethesda. Er mai yn Rachub y bu'n byw yn ddiweddar, yn y Gerlan y treuliodd Margaret y rhan helaethaf o'i bywyd priodasol. Yno, gyda'i gwr Lewis y magodd bedwar o blant. Roedd pawb yn adnabod Margaret oherwydd ei phersonoliaeth hoffus ac roedd i'w gweld yn aml yn cefnogi digwyddiadau'r dyffryn, boed yn gyngerdd neu eisteddfod, a gwnaeth hyn tra gallodd. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r plant, Susan, Steven, Malcolm ac Alison, a'r holl wyrion a wyresau yn eu colled fawr. Cydymdeimlwn â hwy hefyd yn eu profedigaeth o golli ewythr, Islwyn Roberts, sef brawd Margaret saith wythnos yn ddiweddarach.

**Eglwys Crist, Glanogwen**
Trist yw meddwl nad yw'n addoldai ar agor i'r aelodau ar hyn o bryd, a'r mynwentydd heb eu trin, ond yn anffodus dyna'r drefn dan y cyfarwyddyd a ddaeth gan yr awdurdodau a rhaid dal ati er mwyn cadw'n ddiogel ac iach.

Er gwaetha'r cwbwl, anfonwn ein cofion cynhesaf at ein haelodau i gyd – y mwyafrif bellach yn gaeth i'w cartrefi, gan obeithio na fydd yn hir cyn i ni weld gwasanaethau'n ail-gychwyn. Mor lwcus ydym yn ein cyfryngau, bod dewis gennym ar gyfer myfyrdod ac emyn ar y radio a'r teledu. Cofiwn yn arbennig at y rhai hynny sydd wedi cael damwain neu salwch yn ystod y cyfnod anodd hwn, a diolchwn am y gofal arbennig sydd ar gael ar gyfer pawb sydd mewn angen.

Braf oedd clywed bod cymaint ohonoch wedi gwerthfawrogi clywed cloch Glanogwen yn datgan ein diolch i'r gweithwyr gofal i gyd ar nos Iau, a diolchwn yn gynnes i Tony Hanson, gwr Llinos, am ei waith yn canu'r gloch. Daeth hyn i ben ddiwedd y mis gan fod Tony ei hun yn dechrau ar hyfforddiant i weithio i'r Gwasanaeth Ambiwlans, felly byddwn yn diolch iddo yntau gyda'r gweddill pan fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd.

Cofiwch os oes rhywun yn unig neu am gael sgwrs, mae croeso i chwi roi caniad i Glenys ar 600371 neu Barbara ar 600530. Gobeithiwn gael cyfarfod cyn bo hir.

**Yr Eglwys Unedig**
Cyfarchion cynnes i chi i gyd!
Bydd y rhai ohonoch sydd yn cael mynd allan o gwmpas y stryd wedi sylwi mae'n siŵr bod sgip wedi'i gosod ar un ochr i libart y capel, er mwyn hwyluso'r gwaith sydd yn mynd ymlaen yn Nhanygraig. Erbyn y bydd y Llais wedi ymddangos, bydd sgip ar yr ochr arall hefyd, er mwyn i ni gael gwared o'r coed a'r mieri o'r ardd a chefn y capel.

Mae Emyr, Owen John a Walter wedi bod wrthi'n plannu mwy o lwyni, torri'r gwair a dyfrhau yn yr ardd – diolch yn fawr iddynt am eu gwaith.

Cofiwch am y gwasanaethau sydd ar gael ar y cyfryngau a'r safleoedd cymdeithasol – e.e. mae gan Eglwys Tabernacl, Y Barri, fyfyrdodau, gweddïau ac emynau gwreiddiol yn ddyddiol ar eu safle 'Facebook' sydd yn fendithiol dros ben.

Cofiwch hefyd gysylltu â ni os oes angen cymorth arnoch i ymdopi â'r sefyllfa bresennol.

Anfonwn ein cofion cywiraf atoch oll



Capel Jerusalem yr Eglwys Unedig

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau Dynion a Phlant gan Alison

# Pennaeth newydd ym Mhenybryn ac Abercaseg

**(Diolch i Carwyn ac Ogwen 360 am yr eitem ganlynol)**

Mae pennaeth newydd Ysgol Pen-y-bryn ac Abercaseg wedi cael dechrau go wahanol ar ei gyfnod wrth y llyw.

Nid yn aml mae pennaeth yn cychwyn cyfnod yn arwain ysgol pan nad ydi'r mwyafrif o'r disgyblion yn dysgu yn eu dosbarthiadau – ond dyna'r sefyllfa i Gethin Thomas gan fod ysgolion ar draws y wlad ar gau i bob pwrpas ar hyn o bryd oherwydd argyfwng Coronafeirws.

Mae Mr Thomas yn ymuno â ni yn Nyffryn Ogwen wedi cyfnod fel pennaeth ar Ysgol Pentreuchaf. Er yr amgylchiadau anghyffredin, mae eisoes wedi gosod ei stamp ers dechrau tymor yr Haf, ac wedi cysylltu gyda theuluoedd i gyflwyno ei hun.

"Yn amlwg, cadw'n iach a diogel yw ein blaenoriaeth ni fel ysgol ar hyn o bryd," meddai.

"Er i bobl sôn am yr adeg pan ddown ni'n 'ôl i drefn', dydw i ddim yn ein rhagweld ni'n dychwelyd i'r 'un' drefn ag oeddem cyn y cyfnod Covid-19. Bydd raid i ni wynebu heriau newydd, heriau anghyfarwydd i ni ar hyn o bryd.

"Bydd lles ein disgyblion, ni fel staff a rhieni yn cymryd ein holl egni. Bydd rhaid i ni gefnogi ein gilydd, bod yn glust i'n gilydd, rhoi trefniadau a rhaglenni mewn lle sy'n rhoi lles a iechyd meddwl y plant a'r staff uwchlaw popeth arall."

Mae Mr Thomas yn byw yn ardal Llandwrog efo'i wraig Nia a dau o blant – Dafydd ac Ela – heb anghofio Modlan y ci! Mae'n hoff iawn o chwaraeon – ffwtbol a rygbi yn bennaf, ac mae'n hyfforddi tîm dan 12 pêl-droed Llandwrog ac mae hefyd yn aelod o Glwb Rhedeg Eryri.



Mr Thomas a Modlan y ci

**Cymreictod**

Mae Mr Thomas am weld pob disgybl yn datblygu hyd eithaf eu gallu gan feithrin agweddau a rhannu profiadau fydd yn gosod sylfaen gadarn i'w bywydau. Gwneir hyn drwy ennyn balchder yn eu Cymreictod a theyrngarwch tuag at gymuned ac etifeddiaeth.

Meddai Mr Thomas: "Rydw i eisiau Ysgol Pen-y-bryn ac Abercaseg fod yn ysgol liwgar a modern sy'n parchu ei hanes a'i diwylliant, ond sydd yn symud ymlaen yn bwyllog ond penderfynol tuag at ragoriaeth, i baratoi'r disgyblion ar gyfer eu dyfodol fel dinasyddion.

"Mae'r ysgol a'r cartref yn bartneriaeth. Dylai rhieni a gwarcheidwaid fod yn falch o'r ysgol, a pharchaf hwy fel addysgwyr cyntaf ein plant."

Pob lwc i Mr Thomas a gweddill yr ysgol a gobeithio y bydd disgyblion yn gallu dychwelyd yn fuan – ond hynny pan fydd hi'n saff i bawb wneud hynny.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi


MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068


Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:
Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

# Taith o Amgylch y Fro

## gydag Arwyn Oliver




**Taith 2 Llwybr Ffridd Fawr**

Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf a cherdded heibio tai Lôn Sarnau, ffatri G.L. Jones ac i gyfeiriad Pont Sarnau. Yn syth wedi croesi'r bont, troi i'r dde heibio fferm Tanysgafell Isaf. Cyrraedd y Lôn Gefn yn ymyl tai Tanysgafell a throi i'r dde.

Wedi cerdded oddeutu 30 metr i gyfeiriad Tregarth fe sylwch fod arwyddbost llwybr ar y chwith.

Dilynwch y llwybr i fyny i gyfeiriad y Ffridd Fawr ac ymhen ychydig byddwch yn cerdded o dan y lein fach a fyddai'n cludo llechi o'r chwarel i Borth Penrhyn.

Cadw at y llwybr a chroesi llwybr arall. Ewch yn syth ymlaen heibio i arwyddbost gyda phaent coch arno.

Ymhen ychydig byddwch yn cyrraedd prif lwybr y Ffridd Fawr. Ewch i'r dde a dilyn y llwybr drwy hen giât fochyn a thros bont fechan bren.Dilynwch y llwybr drwy'r ffridd a mynd trwy giât fochyn. Trowch i'r chwith i fyny'r cae gan gadw at yr eithin. Nid oes llwybr clir am ychydig yma. Bydd tai Pen y Ffriddoedd yn y golwg erbyn hyn. Cadwch at y ffens ar y chwith.

Anelwch am gornel chwith y cae nes cyrraedd y giât fochyn. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr i fyny i gyfeiriad coedwig (Parc Dafydd Ellis - oedd yn llawn o "gowbois ac Indians" slawer dydd yn ôl!!). Mae'r llwybr yma'n wlyb mewn rhai mannau. Ar ôl mynd drwy giât haearn, ewch ymlaen heibio i giât fochyn arall (llwybr i gyfeiriad Ffynnon Bach ac Ysgol Bodfeurig ydi hwn).Mae saeth felen ar bostyn yn dangos y llwybr i'w ddilyn gan gerdded hyd odre'r parc.

Ymhen rhyw ddeng munud fe ddylech ddod ar draws mainc ar y chwith. Mae'n werth treulio rhyw bum munud yma i gael eich gwynt atoch a mwynhau'r olygfa tua'r Carneddau a'r Fenai. Ymlaen ar y llwybr drwy giât fochyn, rhwng tŷ a garej nes cyrraedd y ffordd ger Bryn Eglwys. Trowch i'r chwith a cherdded i lawr yr allt heibio Eglwys St Ann's nes cyrraedd tai Bryn Geraint.

Troi i'r dde o flaen y tai a dilyn y llwybr drwy giât fochyn i lawr at lwybr Llyn Coed y Parc. Cyrraedd llwybr Llyn Coed y Parc a throi i'r chwith. Mae'r llwybr yn dilyn Afon Galedffrwd.

Yng ngwaelod y llwybr troi i'r dde ac anelu at "ddrws" yn y wal fawr ar y chwith. Mynd trwy'r agoriad at y Felin Fawr.Croesi'r cledrau a cherdded rhwng yr hen ffowndri a siediau'r trenau gan ddilyn y ffens werdd ac i lawr at y Lôn Gefn.

Ymlaen i'r chwith a phasio'r stad ddiwydiannol. Troi i'r dde wrth arwydd llwybr cyhoeddus, heibio rhes o dai a thrwy giât fochyn i lawr llwybr Pont Sarnau ac yn ôl i Fethesda.

**Pellter**: Bron i ddwy filltir a hanner
**Amser**: Oddeutu awr a hanner
**Offer**: Esgidiau addas – rhannau o'r llwybr yn wlyb.
Mwynhewch!!

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Canslwyd y cyfarfod cangen deufisol yn mis Mai oherwydd caethewid y cyfnod clo ond bu cynghorwyr, swyddogion a chynrychiolwyr y gangen yn dal i wneud hynny a oedd yn bosibl i'w wneud yn ystod y mis.

Da oedd clywed bod Llywodraeth Lafur Cymru'n dal i wneud ychydig mwy na Llywodraeth Prydain yn ystod y mis (e.e. ni chodwyd tâl am ddarparu offer amddifffyn personol i gartrefi'r henoed) ac yn sicrhau ein bod ni'n fwy diogel na phobl Lloegr (e.e. trwy peidio â lleihau'r cyfyngiadau mor fuan).

Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol cyfeillgar o Blaid Lafur Arfon ar y we trwy ddefnyddio ZOOM a llwyddodd pawb i fynegi barn. Bydd un arall yn mis Mehefin.

Roedd Cyngor Gwynedd yn wynebu diffyg ariannol sy'n fwy na'r arian wrth gefn am fod dim incwm yn dod I mewn o rai llefydd (e.e. canolfannau hamdden) a gostyngiad sylweddol o lefydd eraill (e.e. meysydd parcio) yn ystod y cyfnod hwn ond da oedd clywed bod Llywodraeth Lafur Cymru'n rhoi mwy o arian iddynt ac i'r cynghorau sirol eraill i helpu lleddfu'r broblem.




Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen


www.llaisogwan.com
@Llais_Ogwan

# Wil Wandrin
# (William Thomas Jones 1900 - 1980)

Ym Mis Tachwedd 1974 yn ail rifyn Llais Ogwan ymddangosodd colofn am un o gymeriadau'r fro hon. Yr awdur, fel y gallwn ddatgelu erbyn hyn, oedd y diweddar Athro Syr Idris Foster, Cilfodan, ysgolhaig oedd yn gweithio ac yn byw yng Ngholeg Iesu, Rhydychen ar y pryd. Ysgrifennodd Syr Idris ei deyrnged i Wil Wandrin fel y'i gelwid, oherwydd fod Wil yn gymeriad unigryw, yn ddu gan olew a huddyg, ond yn meddu ar y gallu i ddiberfeddu ac i drwsio'r offer mwyaf astrus a chymhleth.

Roedd Wil yn byw yn Ffordd Carneddi, oddeutu dau ddrws draw o Siop Sheffield i gyfeiriad Hen Barc ac yno y byddai wrth ei ddrws ar noson braf yn gwneud rhyw orchwyl gyda wats, cloc, neu feic hyd yn oed. Roedd Wil yn cael ei gydnabod fel rhywun allai drwsio unrhyw declyn a byddai'n aml yn gweithio ar grawen o lechen fawr wastad wrth y drws ffrynt a weithredai fel mainc waith iddo ar ddiwrnod sych, braf. Mae'n siŵr bod y golau'n well y tu allan er mwyn iddo graffu ar fanion rhyw ddarnau bach o declynnau. Peth arall wrth gwrs oedd y ffaith bod pawb oedd yn pasio ei ddrws yn cyfarch Wil ac yntau'n cael sgwrs gyda hwn a'r llall gan eu holi'n dwll os na fyddai'n eu hadnabod. Cymeriad prin yn ei oes ei hun ond un na welir ei debyg fyth eto siŵr o fod. Beth bynnag a fo am hynny, gadawn i Syr Idris ddweud hanes Wil Wandrin yn ei eiriau dihafal ei hun.

Cymeriad

**William Thomas Jones (Wil Wandrin)**

Mae Dyffryn Ogwen wedi magu gwyddonwyr disglair yn ogystal â beirdd, llenorion a cherddorion. Dyna J. W. Thomas 'Arfonwyson' o'r Allt Isaf, Pentir a ysgrifennodd ar elfennau Mathemateg, ac a gafodd swydd ar sail ei astudiaeth o 'gomed Halley' yn Arsyllfa Greenwich lle bu farw yn bump ar hugain mlwydd oed yn 1840. Yn ein dyddiau ni roedd yr Athro W. E. Williams, Tyddyn Canol yn awdurdod hysbys ar ffiseg a pheirianneg a dirgelwch y pwerau hynny sy'n gyrru awyrennau ar eu hynt. A phan fyddwn yn mwynhau ac yn edmygu crefft lenyddol J. O. Williams mae'n rhaid i ni gofio hefyd am ei afael sicr ar egwyddorion sylfaenol gwyddoniaeth. Fe ddylem wybod mwy am wyddonwyr yr ardal.

Mae gan un ohonynt ei le arbennig yn y cwmni hwn. Fel Syr Thomas Parry Williams mae yntau wrth ei fodd yn 'mynd i berfedd pethau.' Fe ddywed Syr Thomas yn un o'i ysgrifau ei fod yn hapus pan fydd 'oeliach ac



ystaeniau ar ei ddwylo' a'r 'offer a'r twls' yn hwylus wrth law. Mae'r cymydog hwn yr un fath. Wrth fynd i 'berfedd pethau' y daw yntau o hyd i'w cyfrinachau, ac o ddarganfod eu cyfrinachau fe ffurfir perthynas bersonol glos rhyngddo a'r teclyn y mae'n ei drafod mor ofalus â phetai'n hen gyfaill iddo.

Dim ond perthynas fyw fel hyn sy'n esbonio pam y dywedodd unwaith fod gan gloc wyth-niwrnod 'wyneb del' a'i fod yn ddiau yn 'gwmpeini' yn y tŷ yn nhrymder gaeaf. Y mae llawer o'r 'hen wynebau' y bu'n eu harchwilio i'w gweld yng nghartrefi'r fro, yn dystion cyson i'w amynedd dyfeisgar ac annwyl. Prin fod neb yn y cylch hwn wedi trin mwy ar hanfodion anatomegol a 'bywiol' pethau mecanyddol fel motobeics, clociau, watsus, lampau oel, batri a nwy, pramiau a setiau radio. Beth bynnag fydd yr anghaffael arnynt fe fydd ef yn sicr o adnabod arwyddion y diffyg a chanfod ei wraidd. Os oes meddygyniaeth fe'i ceir ganddo; ond oni all ef ffeindio'r ateb mae'r rhagolwg yn dywyll iawn.

Wrth ei wylio yn syllu ar we mân cymalau wats drwy'r chwydd wydr bychan sy'n ymestyn allan rywsut o'i lygad chwith yr ydych yn gwybod eich bod yn edrych ar arbenigwr sy'n hen feistr ar ei gelfyddyd. A meistr ymroddedig hefyd nad yw, (neu nad oedd hyd yn ddiweddar) oriau mesuredig yn cyfrif yn union yr un fath iddo ef ag i'r rhelyw ohonom, er ei fod ef yn awdurdod ar gyfryngau mesur amser. Ar un adeg rhwng gwyll a gwawr y cyrhaeddai gwaith ei anterth iddo. Rai blynyddoedd yn ôl gellid ei weld (i fod yn gysáct 'ei glywed' efallai) yn mynd ag ambell foto-beic adferedig am dro bach adfywiol ar hyd Hen Barc tua hanner nos. Nid pererin 'llwyd ei wedd' na gŵr yn crwydro'n ddibwrpas mohono ar y teithiau hyn ond crefftwr cywrain yn gwbl sicr o'i nod. Ar nosau haf, yn ôl eich angen , gallech ymuno â'r cwmni bychan yng nghefn y tŷ a phawb yn disgwyl ei dro am gyfarwyddyd ymarferol ynghylch rhyw declyn mwy anniben na'i gilydd.

Ni welais i neb fel ef am roi pwrpas newydd i ac annisgwyl i offeryn sydd i bob golwg wedi colli ei ddefnyddioldeb cynhenid. Y fo a ddangosodd i mi na ellir cael sbanar gwell at ambell joban ddyrys na hen beth-torri-cnau wedi ei fwrw heibio. Nid oes dim yn mynd yn wast yn ei fyd ef. Gwybodaeth, profiad, amynedd ac ymroddiad unplyg; mae'r rhain ganddo. A mwy hefyd; dychymyg a dyfais. Ni ellir datgelu'r manylion am ei ddyfeisiadau - er enghraifft y wats -wyth-niwrnod, y cloeau cywrain neu'r batrïau dynamig a all beri i lamp fechan ddisgleirio bron mor llachar â'r Sowth Star ei hun. Maent i gyd yn ffrwyth gweledigaeth greadigol ac yn gynnyrch ymennydd sy'n mwynhau dyfeisio er ei fwyn ei hun, heb falio botwm corn am elw a bri. Ymchwil bur yw'r ymadrodd am y math hwn o weithgareddau yn ein prifysgolion.

Ar wahân i'w gyraeddiadau yn y meysydd y mae'n arbenigwr ynddynt, y mae ei gwmnïaeth yn amheuthun. Mae ganddo ef gof diollwng am y manylion lleiaf ynghylch dyddiad, digwyddiad a lle a hyfrydwch cysurlon yw cael gwrando ar rywiogrwydd naturiol ei Gymraeg pan fo'n adrodd stori neu'n egluro pwnc dyrys. Yn goron ar y cwbl y mae cywirdeb diniwed ei ysbryd ac onestrwydd agored ei weithredoedd. Oherwydd hyn oll y mae'n un o ragorolion y ddaear ac yn un o gymeriadau anwylaf Dyffryn Ogwen.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

# Ysgol Tregarth

**Daw eto Haul ar Fryn!**
Ers sawl wythnos mae ein hysgolion yn Ganolfannau Gwarchod sy'n darparu gwasanaeth i blant gweithwyr allweddol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae athrawon ysgol Tregarth wedi bod yn cynllunio a pharatoi tasgau a gweithgareddau amrywiol ar gyfer y plant sy'n dysgu o adref.

Rydym fel athrawon wrth ein boddau'n cael gweld beth mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod hwn. Dyma rannu gyda chi, y gymuned yr hyn mae plant ysgol Tregarth wedi bod yn ei wneud.

**Dosbarth Llywelyn**
Mae plant blwyddyn 1 a 2 (dosbarth Llywelyn) wedi bod yn hynod o brysur dros yr wythnosau diwethaf, gan wneud yn fawr o'r tywydd bendigedig gan dreulio llawer o'u hamser tu allan. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt, a'u rhieni am gyflawni nifer fawr o'r tasgau sy'n cael eu gosod yn wythnosol. Rydym wedi derbyn nifer o luniau o'r plant yn mwynhau, yn chwerthin ac yn cadw'n brysur, braf yw gweld hyn.



Tŷ Adar Ethan

Ethan – Mae Ethan wir wedi mwynhau dysgu am adar y Gwanwyn yn ystod y cyfnod hwn. Dyma lun o Ethan gyda'i dŷ aderyn a adeiladwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.



Poppy'n cadw'n brysur

**Hari** – Efallai mai cogydd fydd Hari yn y dyfodol! Mae Hari wedi bod wrthi'n coginio treiffl blasus adref gan ddarllen y cyfarwyddiadau a mesur y cynhwysion. Tybed beth fydd Hari'n ei goginio nesaf?
**Harvey** – Mae Harvey wedi gwneud yn fawr o'r tywydd braf dros yr wythnosau diwethaf. Mae Harvey wedi plannu perlysiau gyda'i dad yn yr ardd, chwilio am drychfilod ymysg y planhigion, cynnal ras falwod ac wedi creu abwydyn ar gyfer y mwydod. Arbennig Harvey!
**Nel** – Croeso cynnes i 'Siop Nel'! Mae Nel wedi bod yn brysur iawn adref yn agor siop er mwyn ymarfer ei sgiliau arian. Buasem wrth ein boddau cael dod draw i dy siop Nel.

Tristan – Mae Tristan wedi bod yn andros o brysur ar y Fferm gan helpu gyda'r ŵyn a gofalu am ei gi bach Duke. Diolch am rannu'r lluniau!

Caitlin – Hoffem ddymuno Penblwydd Hapus i Caitlin. Dathlodd Caitlin ei phenblwydd yn 7oed yn ystod y cyfnod rhyfedd yma. Roedd Caitlin wedi mwynhau ei diwrnod ac wrth ei bodd gyda'i chacen penblwydd.



Penblwydd Caitlin

**Dosbarth Idwal**
Er ein bod yng nghanol amser rhyfedd ac anodd iawn mae'r plant Meithrin a Derbyn wedi bod yn brysur iawn adref. Rydym wedi bod yn dilyn gwahanol themâu yn wythnosol, e.e. enfys, blodau, adar a'r stori 'Y teigr a ddaeth i de'. Mae'r plant wedi cwblhau nifer o weithgareddau ar-lein, ar bapur ac allan yn yr awyr agored. Gan ein bod wedi cael tywydd mor braf roedd yn gyfle perffaith i fynd allan a dysgu mwy am yr ardal leol a chael sylwi ar fyd natur. Mae llawer wedi bod yn plannu hadau a blodau gan ddysgu am arddio. Bu llawer o blant ar helfa yn chwilio am arwyddion o'r Gwanwyn gan gyflwyno'r gwaith mewn nifer o wahanol ffyrdd, e.e. poster, llun, rhestr, collage. Yn sicr maent wedi bod yn greadigol iawn yn ystod y cyfnod yma. Bu nifer yn creu ysbienddrych er mwyn mynd i chwilio am adar ac yna creu graff. Mae rhai plant wedi meddwl am ffyrdd diddorol o fwydo adar, mae'r adar bach yn Nhregarth yn lwcus! Mae rhai wedi dysgu sgil newydd, e.e. coginio, paratoi tê prynhawn arbennig (gwell na un caffi!) a hyd yn oed chwarae piano. Bu eraill yn cymryd rhan mewn sesiynau yoga i gael ymestyn ychydig ar y corff ac ymlacio.

Diolch i'r rhieni a'r gwarchodwyr sydd wedi helpu'r plant i gwblhau'r tasgau a chynnig profiadau hyfryd i'r plant. Mae'n hyfryd derbyn lluniau ohonoch yn ystod y cyfnod yma ond rydym i gyd yn edrych ymlaen at eich gweld cyn bo hir. Cadwch yn saff blantos.

**Dosbarth Ffrydlas**
Mae disgyblion Ffrydlas, fel pob plentyn arall, wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn gweithio o adref. Diolch i bob un ohonynt, a'u rhieni am gyflawni nifer fawr o'r tasgau sy'n cael eu gosod iddynt yn wythnosol. Diolch hefyd iddynt am rannu gyda ni amryw o'r gweithgareddau creadigol maent yn gyflawni. Maent wedi bod yn brysur yn ymarfer eu sgiliau rhif, yn cyflawni tasgau darllen a deall a gwneud gwaith ymchwil mewn gwahanol feysydd. Rydym wedi derbyn gwaith ymchwil manwl iawn am germau, am amrywiol wledydd yn y byd, am y Celtiaid,



Iago, un o blant yr ysgol wrth ei waith yn ei gartref




Siop Nel



# Ysgol Tregarth

ac yn bwysig iawn am Aneurin Bevan (dyn y dylem oll fod yn gwybod amdano ac yn ddiolchgar iddo).

Rhai wedi bod yn gofalu am eu hanifeiliaid anwes amrywiol. Dim ond Mark mae'n debyg sy'n magu pry pric!

**Marc gyda phry pric anwes ar ei wyneb**

Yn ogystal mae gweithgareddau corfforol a chreadigol wedi bod yn digwydd, a diolch i rhai hynny sydd wedi cyfrannu i her ddosbarth i weld pa mor bell y gallwn deithio mewn wythnos drwy wahanol ddulliau. Diolch iddyn am rannu eu hymdrechion, yn deithiau cerdded, beicio yn yr awyr agored ac ar feic mynd i nunlle neu beiriant rhedeg! Daliwch ati blant – rydych chi'n rhyfeddol a ninnau yn falch iawn ohonoch bob un.

**Ieir**

Yn rhan o deulu Ysgol Tregarth mae gennym 4 iar coeliwch neu beidio! Wrth gwrs, mae'r ieir wedi cael cartref newydd yn ystod y cyfnod hwn. Diolch o galon i'r teulu sydd wedi derbyn y gofal drostynt ac yn cael wyau yn wobr am eu caredigrwydd! Yn anffodus, er fod tair ohonynt yn hollol ddidrafferth, mae UN yn creu cryn drafferth. Gweler lun o ble cafwyd hyd iddi un diwrnod! Yn ogystal, mae'n hoffi treulio amser ar ben y tô, ar draws y lôn, yn torri a difetha'r wyau – iâr drafferthus iawn. Efallai yr hoffai rhywun ysgrifennu llyfr am eu hanturiaethau!



Osian a reidiodd ei feic am wyth milltir a hanner ar lwybr garw a gelltydd

**Dosbarth Ogwen**

Yn ystod y cyfnod anodd yma, mae dosbarth Ogwen wedi bod yn brysur tu hwnt drwy weithio o adref, fel mae nifer fawr o oedolyn yn gorfod gwneud ar y funud. Mae tasgau yn cael eu rhannu yn wythnosol ar raglen google classroom sy'n galluogi i'r plant wneud ei gwaith o adref a'i yrru ymlaen i'r ysgol. Yn ystod yr wythnos diwethaf mae dosbarth Ogwen a Ffrydlas wedi bod yn brysur yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i weld pa ddosbarth sy'n gallu rhedeg, cerdded neu feicio pellaf mewn wythnos.

Fel ysgol, trafaeliwyd dros 300 milltir i gyd! Yn ogystal maent wedi bod yn gwneud amryw o dasgau rhif, darllen ac ymchwiliol yn ystod y cyfnod. Rydym wedi ymchwilio i fywyd Aneurin Bevan, edrych ar gyfandiroedd a gwledydd o gwmpas y byd, creu gwrthrychau gyda deunyddiau o gwmpas y tŷ, dwdlo ar raglen Gymraeg youtube, creu helfa drysor, arbrofion gwyddonol a llawer mwy, fel y gwelir yn y lluniau.




Esther a Judah













# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**,44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Profedigaeth**

Daeth profedigaeth i ran Tecwyn a Sarah Griffiths, Ffordd Tanrhiw, pan fu farw brawd Tecwyn yn y Felinheli yn ystod yr wythnosau dwytha, sef Hefin Griffiths. Cydymdeimlwn gyda chi fel teulu yn eich profedigaeth.

**Capel Shiloh**

Mae'r wythnosau yn gwibio heibio ers i ni gael cyfarfod fel cynulleidfa mewn oedfa yn Shiloh. Daeth terfyn hefyd ar y Drws Agored ar fore Gwener ar hyn o bryd ond ein gobaith ni i gyd yw y daw'r amser i ddod at ein gilydd unwaith eto. Anfonwn ein cofion at bawb gan obeithio'n fawr eich bod i gyd yn cadw mewn iechyd gweddol.

Cawsom newyddion da fod Noreen Jones adre o'r Ysbyty ac yn ei chartref ym Methesda wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, Eryri ac Ysbyty Stanley, Caergybi. Pwyll rŵan Noreen a brysiwch i wella'n llwyr.

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Gan nad oes ymarferion na chyngerdd wedi bod yn bosib' o dan y llochesu maith, dydy'r côr ddim wedi cyfarfod ers wythnosau. Wrth reswm, mae hynny wedi golygu gohirio a chanslo pob cyngerdd a thaith nes bydd bywyd yn dod yn ôl i ryw fath o drefn. Er hynny, dydy pwyllgor y côr ddim wedi bod yn segur gan fod cyfarfodydd rhithiol wedi cael eu cynnal trwy gyfrwng rhywbeth a elwir yn Zoom. Hefyd, bu'r arweinydd yn cyfansoddi trefniannau o ganeuon er mwyn i'r aelodau ddechrau ymgyfarwyddo â hwy yn eu cartrefi. Mae'r pwyllgor yn ceisio edrych ymlaen at weld beth fydd yn bosib' yn nhermau ymarferion pan fydd y rheolau caeth presennol yn cael eu llacio ac y bydd pawb yn teimlo'n ddigon diogel i ail ymgynnull.

Y tro hwn eto manteisiwn ar y cyfle i edrych yn ôl ar beth o hanes y côr gan obeithio y bydd rhai pethau yn taro tant gyda darllenwyr Llais Ogwan.

Gweler lun o'r côr yn 1970. Faint o'r aelodau dach chi'n eu cofio ar ôl 50 mlynedd? Byddwn yn cyhoeddi'r rhestr o enwau a dderbynnir yn rhifyn Gorffennaf. Anfonwch eich rhestrau at derfel.roberts@btinternet.com neu postiwch nhw i 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG.

Yn llyfr y diweddar Elfed Jones, Glanogwen, *Côr Meibion y Penrhyn Ddoe a Heddiw* a gyhoeddwyd dan nawdd y côr yn 1984, mae'r awdur yn olrhain hanes y côr o'i wreiddiau cynnar yn y 19eg ganrif. Mae'n dweud bod arloeswyr fel Robert Williams Cae Aseth, yn rhoi gwersi cerdd yng Nghapel Carneddi a'r Hen Gapel, Rachub rhwng tua 1820-1830 ac y gellir diolch iddo l fo ac eraill fel Griffith Rowlands (Asaph) a David Roberts (Alawydd) am sefydlu'r traddodiad cerddorol yn Nyffryn Ogwen.

Daeth y côr cyntaf y gellid ei alw'n Gôr y Penrhyn i fodolaeth rhywdro yn yr 1870au a pharhaodd tan tua 1895 ond yna bu bwlch o ddeugain mlynedd pan na *"fu sôn am Gôr Meibion y Penrhyn tan 1935."* Fel yr eglura Elfed Jones, *"Dydy hyn ddim yn syndod o gwbl pan gofiwn mai hwn oedd cyfnod y ddwy chwalfa - Streic Fawr 1900-03 a chyflafan erchyll 1914-18. Dyma'r ddau ddigwyddiad a greodd y "rhwyg o golli'r hogiau".*

*"Yn dilyn y rhyfel," meddai Elfed, "bu cyfnod o ddirwasgiad a danseiliodd bob rhan o gymdeithas."*



Côr y Penrhyn 1970 cyn eu hymweliad â Neuadd Albert, Llundain

# Cymeriadau'r Côr

**Cyfle i ddod i adnabod aelodau Côr y Penrhyn yw'r gyfres hon a'r mis yma mae'r llifoleuadau ar y Dr John Gwilym Owen o Dregarth sy'n uwch ddarlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor.**

1 **Be' ydy dy enw llawn?** John Gwilym Owen.
2 **Oed?** 63.
3 **Gwaith** Uwch ddarlithydd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor.
3 **Lle wyt ti'n byw?** Tregarth.
4 **Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Frodsham tu allan i Gaer.
5 **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Un sydd yn hoffi jôc a thynnu coes; un sydd yn hoffi bod yng nghwmni pobl ifanc a cheisio rhoi cymorth iddynt gyrraedd lle mae nhw eisiau bod; a pherson sydd yn cymryd diddordeb mewn materion Cymreig a'u lle yn y byd.
6 **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers pedair blynedd a hanner.



7 **Pa lais wyt ti?** Ail denor.
8 **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Pwy all wrthod gwahoddiad gan Caleb?
9 **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Battle Hymn of the Republic.
10 **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Elton John; caneuon Ryan a Ronnie.
11 **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Iawn - dwi'n hoff o bob math o gerddoriaeth.
12 **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Roedd y daith i Norwy yn un bleserus a chael cymryd rhan yn Glastonbury yn fythgofiadwy.
13 **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n hoffi teithio pan dwi'n cael y cyfle, darllen llyfrau hanesyddol, gwylio ffilmiau, cerdded a dilyn Everton.
14 **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Wrth reswm, nid oedd yn bosib cael mynd i'r Unol Daleithiau y flwyddyn yma, ond buaswn yn hoffi gweld y côr yn mynd yn y dyfodol ac mae'n dda gennyf weld fod yna bosibilrwydd i hyn ddigwydd.
15 **Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr**? Cyfeillgarwch. Dwi'n teimlo fy mod i'n rhan o deulu mawr yn y côr a dwi'n hoffi iawn o'r tynnu coes sydd yn mynd ymlaen.

# gair neu ddau

**John Pritchard**

**GWIRIO'R GWIRIWR**

Fûm i erioed yn yr Unol Daleithiau. Ac a bod yn onest fu gen i erioed awydd mynd yno chwaith. Ac eto, prin fod diwrnod yn mynd heibio heb i mi glywed rhywbeth am hyn a helynt y wlad fawr honno. Y ffaith fod cyfryngau torfol gwledydd Prydain yn rhoi sylw byth a hefyd i'r hyn sy'n digwydd yn yr Unol Daleithiau sy'n egluro hynny wrth gwrs. Ac ers pedair blynedd felly, mae wedi bod yn anodd, os nad amhosibl, osgoi doethinebu direswm dyn y Tŷ Gwyn.

Does wybod beth ddaw o geg y dyn disinffectant o'r naill ddydd i'r llall. Ond y noson o'r blaen, clywais un o'i gefnogwyr yn dweud peth hynod o gall. Erroll Webber yw un o'r Gweriniaethwyr sy'n gobeithio cael ei ethol i'r Gyngres yn ddiweddarach eleni. Ar y teledu'r noson o'r blaen, roedd yn datgan ei gefnogaeth i'r Arlywydd Trump yn y ffrae rhwng hwnnw a *Twitter*. Mae Donald Trump wedi gwneud defnydd helaeth o *Twitter* i wneud pob math o sylwadau, yn cynnwys sylwadau difrïol a maleisus a chelwyddog. O'r diwedd, wedi blynyddoedd o oddef iddo ddweud a fynno, mae rheolwyr *Twitter* yn amlwg wedi cael llond bol, a diwedd mis Mai am y tro cyntaf erioed fe osodwyd nodyn wrth un o negeseuon Trump i gyfeirio pobl at Wiriwr Ffeithiau sy'n dangos nad oedd neges Trump yn wir. Mae Trump yn gandryll, ac yn bygwth pob math o bethau, yn cynnwys dod â *Twitter* i ben.

Dyw Trump na'i gefnogwyr yn hoffi'r syniad bod *Twitter* yn tynnu sylw at y ffaith fod rhywbeth a ddywed yr Arlywydd yn gelwydd. Ond ymateb Mr Webber oedd yn ddifyr: 'Yn hwyr neu hwyrach, bydd rhaid i ni ddechrau gwirio'r gwirwyr ffeithiau'. Syniad ardderchog! Pan fo pobl yn cywiro'r Arlywydd, ac yn ei gyhuddo o ddweud celwydd, ar bob cyfrif fe ddylai ei gefnogwyr wirio'r hyn a ddywed y bobl hynny. O ddilyn awgrym Mr Webber, o bosib y daw rhai o gefnogwyr mwyaf pybyr Trump i weld fod ei feirniaid yn gywir a bod yr Arlywydd yn aml yn rhaffu celwyddau.

Ddylai neb sy'n dweud y gwir ofni gwirwyr ffeithiau. Os rhywbeth, maent yn eu croesawu. Mae Cristnogion yr un modd yn croesawu unrhyw ymdrech gan bobl i wirio'r hyn a gyhoeddant. Cyhoeddi'r gwir fu nod yr Eglwys Gristnogol erioed: y gwir am Dduw, am Iesu Grist, am yr Ysbryd Glân, am y ddynoliaeth, amdani hi ei hun, am y ffordd at Dduw, am fywyd a marwolaeth, am nefoedd ac uffern a phopeth arall y mae'n ei gredu. Mae'r gwir yn dal y prawf ac yn sefyll, beth bynnag feddwl neb ohono. Ond gan ein bod yn cydnabod nad oes yr un ohonom yn gwybod y cyfan, a bod modd i bawb ohonom gamddeall rhai pethau, mae'n dda bod eraill yn gwirio'r hyn a ddywedwn. Ar bob cyfrif, boed i wrthwynebwyr y Ffydd wirio ein neges a thynnu sylw at unrhyw beth ynddi sy'n wallus neu'n anghywir. Yr unig beth a ofynnwn yw bod y cyfan yn cael ei fesur yn ôl yr hyn a ddatguddiodd Duw i ni yn ei Air.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards,** Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

**Clapio**

Yn dilyn y cyfarfodydd clapio yn Llandygái bob nos Iau, penderfynwyd gwneud casgliad tuag at Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb o'r ardal am eu cyfraniadau hael. Casglwyd £420, Bydd yn cael ei drosglwyddo i'r pwyllgor gan Iona cyn gynted ag y bydd amgylchiadau yn caniatáu.

**Damwain**

Cafodd Lis Jones, Rhif 21 o'r pentref ddamwain gartref ,a bu raid iddi dreulio dyddiau yn yr Ysbyty. Ar hyn o bryd mae'n cael cyfnod gyda'i merch ym Mhenrhos.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

PEN Y CEUNANT ISAF
Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com
Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# CHWILAIR

## Deuddeg Pab

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F | R | A | N | C | I | S | A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B |
| V | B | H | X | J | U | J | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D |
| W | H | P | U | Z | M | O | X | U | V | B | A | D | D | N | A | P | A | U | Q |
| U | S | E | O | F | R | H | P | R | Y | Q | E | Z | G | R | H | C | U | M | W |
| F | N | T | O | Y | R | N | I | B | A | A | S | N | Z | U | T | F | D | X | U |
| A | P | E | W | R | H | Y | C | A | Q | L | H | W | E | E | H | O | Y | E | E |
| T | G | R | E | O | M | C | H | N | E | E | P | T | T | D | C | B | B | C | U |
| N | U | J | P | L | T | Y | M | Y | I | X | V | V | D | C | I | B | B | F | R |
| Y | F | O | G | J | V | N | I | R | I | A | R | R | X | I | M | C | H | T | T |
| C | O | S | K | O | P | T | W | W | R | N | C | M | K | C | B | O | T | R | C |
| Y | X | V | R | Y | H | A | S | Y | T | D | M | R | E | F | Y | J | D | Z | H |
| S | B | C | W | O | S | F | C | T | R | E | A | I | X | N | I | L | X | J | J |
| U | M | B | W | T | E | X | M | H | D | R | X | K | F | U | P | N | C | Q | Y |
| I | C | L | E | M | E | N | T | F | O | I | L | F | E | R | Z | E | Q | R | O |
| P | C | T | D | G | W | S | L | E | Z | E | B | E | A | J | K | H | J | C | L |
| N | L | R | V | O | G | J | P | D | W | P | G | S | O | W | J | P | J | Q | U |
| L | F | D | D | Y | R | E | W | D | Y | P | Y | Y | R | O | G | E | R | G | S |
| V | T | X | E | U | G | S | Y | L | V | E | S | T | E | R | H | T | S | L | Z |
| **J** | **O** | **H** | **N** | **P** | **A** | **U** | **L** | **Y** | **R** | **A** | **I** | **L** | E | A | F | S | X | I | W |
| T | Z | H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B |

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG PAB i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.
**Dyma atebion Mai:** Ffilm; Llyfrau; Papur Newydd; Llawysgrifau; Mapiau; Ffotograffiau; Gwaith Celf; Archifau; Arddangosfeydd; Aberystwyth; Trysorau; Un Naw Un Chwech.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

# Gemau Plant

***[Daeth yr erthygl ganlynol i Lais Ogwan ar ffurf llythyr gan Mary Williams sy'n olygydd cynorthwyol gyda Geiriadur Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Os bydd gynnoch chi sylw i'w wneud mae ei chyfeiriad ar waelod y llythyr.]***

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn - mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol - d'oes dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.

Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cwato** neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **micymgudd**, **chwarae whic whiw**, **cwat a chwiw**, **cŵn cadno**, **chwiw mig**, **sbei**, **chwarae mig**, **licaloi**, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **cicston**, **chwarae ecsi**, **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel **catio**, **chware'r gath**, **chwarae'r gath ddwy gynffon**, **chwarae pren a chati**, a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel **chwarae donci mul**, **chwarae ffwdít**, **llam llyffant**, **naid y ffroga**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen**, neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi am y gêm?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae **pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Cwtogi gwasanaethau**

Bu raid i Arriva gwtogi'r gwasanaeth bws o dair i un pob awr, oherwydd bod cyn lleied o deithwyr ar y bysiau yn ystod caethiwed y cyfnod clo - gan adael Sgwâr Rachub am tua chwarter wedi'r awr, i fynd i Fethesda trwy Carneddi (heb fynd i Gerlan) a thua hanner awr wedi'r awr, i fynd i Fangor trwy Dregarth. Hefyd, caewyd nifer o ffyrdd yn yr ardal am ddiwrnod neu ddau i wneud gwaith ar y cyflenwad trydan. Oherwydd y gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid , penderfynwyd bod rhaid cau'r siop yn y prynhawniau ond mae'r trigolion mor ddiolchgar bod y siop a'r post yn agored yn y boreau. Bu raid i Ron Jones stopio adeiladu ei gartref newydd am gyfnod, am nad oedd blociau ar gael; ond (fel arfer) llwyddodd i ganfod mwy na digon o waith arall i'w wneud a gwnaed ychydig o waith ar y tai cymdeithasol gan eraill ar ôl cyfnod heb ddim gwaith o gwbl.

**Mwynhau natur a diolch i'r gofalwyr**

Oherwydd y tywydd braf anarferol, bu llawer yn cerdded a beicio o gwmpas yr ardal; gan fwynhau'r blodau gwyllt, sawl oen newydd , y golygfeydd, yr adar yn canu a sawl sgwrs o bellter. Yn ogystal â chlapio ar nosweithiau Iau fel sawl stryd arall i ddiolch i'r nyrsys, gofalwyr a'r bobl oedd yn helpu eraill (e.e. trwy siopa drostynt) ; aeth trigolion Llwyn Bedw ymhellach trwy gynnal prynhawniau bingo i blant a nosweithiau cwis i oedolion yn y stryd yn wythnosol, gan gadw i reolau'r llywodraeth.

Bu'n rhyfedd am amser hir am fod y tŷ tafarn, y capel, yr ysgoldy, y caeau chwarae, a'r clwb criced a bowlio ar gau (a oedd yn golygu nad oedd modd cynnal y gweithgareddau arferol). Cafodd rhai eu drysu am ychydig am i'r lori ail gylchu ddod yn gynnar yn y bore yn hytrach na'r prynhawn, yn ddirybudd. Doedd hi ddim yn bosibl mynd ymlaen efo'r gwaith arferol o drwsio ffyrdd am mai dim ond gwaith argyfwng oedd yn cael ei wneud ond daeth newydd da pan glywyd bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu ail wynebu ffordd Maes Bleddyn.

**Llwyddiant i Callum**

Llongyfarchiadau mawr i Callum Hewitt, Tan Y Garth sydd wedi dod i'r brig yng Nghystadleuaeth Mathemateg Eisteddfod yr Urdd. Mae Callum yn un o'r 11 allan o 300 trwy Cymru gyfan i gyrraedd y brig. Diolch yn fawr hefyd i Mr Williams, Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu'r cystadlu. Da iawn ti Callum.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â theuluoedd yr ardal sydd wedi cael y profedigaethau yn ddiweddar: Denis Vaughan Griffith, Bron Bethel (gynt o Sling, Tregarth) a oedd yn gymorth i'r ddiweddar Margaret Owen, Dafydd Ronald Parry o'r Hen Ysgol a Dorothy Williams o ystâd Bron Arfon (Ffordd LLlanllechid gynt) a oedd yn aelod ffyddlon o Gapel Carmel.

Y mae'n dda gennym glywed bod y canlynol wedi gwella: Helen Williams, Llwyn Bleddyn (wedi llawdriniaeth ar ei chlun) Jean Northam, Llwyn Bedw (wedi llawdriniaeth ar ei llaw chwith a chodwm wedyn), Jasmin Carson, Llwyn Bedw (a oedd yn wir sâl am gyfnod) a Janet Scott, Siop Rachub (a gafodd niwmonia). Gyda chymorth Dafydd ei mab, bu Helen yn llwyddiannus wrth ymdrechu i gael gwared o hanner cant o wyau Pasg er bod yr Ysgol Sul ac ati ar gau!

**Profedigaeth**

Dydd Llun 11eg o Fai 2020 bu farw Mrs Lynda Dorothy Williams (Dora) yn 96 oed yng nghartef ei merch Lynda, yn dilyn cyfnod maith o anhwylder. Roedd yn fam i Lynda ac Emlyn, yn fam yng nghyfraith i Dilwyn ac Eleri, a nain annwyl i Elin, Huw, Rhys, Alys, Llio a Gwion.

Yn wreiddiol o Llandygai fe ddaeth Dora i fyw i Rachub ar ôl priodi Twm yn 1948, a byw yn 10 Stryd Fawr lle magwyd Lynda ac Emlyn, cyn symud lawr i'r sgwar yn ystod y saithdegau.

Bu'n gweithio am flynyddoedd maith fel Uwch Ysgrifennyddes Feddygol yng Nghlinic Anhwylderau'r Frest ym Mangor, ac wedi ymddeol bu'n aelod o Ferched y Wawr Llanllechid gan wasanaethu fel ysgrifenyddes y gangen am gyfnod. Ymunodd â Chlwb Henoed Llanllechid a bu'n aelod ffyddlon o Gapel Carmel, Llanllechid ac yn aelod o'r Clwb Gwau.

Bedair blynedd ar ddeg yn ôl, gyda'i iechyd yn dirywio, symudodd i fyw at Lynda a Dilwyn, lle, dros y blynyddoedd, y derbyniodd hi ofal arbennig a chariadus gan y teulu.

Bu'r angladd ym mynwent Coetmor dydd Gwener 15fed o Fai a chynhaliwyd gwasanaeth ar lan y bedd i'r teulu yn unig. Dymuna'r teulu ddiolch yn arbennig i'r Parch Dafydd Coetmor Williams am wasanaeth urddasol.

Hoffai'r teulu hefyd ddiolch i'r trefnwyr angladdau J P Turner (Pentir) am eu gwasanaeth gofalgar, ac i bawb am eu cydymdeimlad a'u rhoddion hael, sydd yn cael eu rhannu rhwng elusennau: S.A.N.D.S. Gwynedd, Cymdeithas MS a Chymdeithas Alzheimers.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Gwenllian a Gareth ar eu priodas yn ddiweddar. Oherwydd y sefyllfa gyda'r Covid-19 bu raid gohirio'r briodas gyfreithiol ond cafodd y pâr ifanc hapus ddiwrnod arbennig ym Mhen Braich yn cyfnewid modrwyau a chael seremoni priodas fechan wrthynt eu hunain.

Benthyciodd Gwenllian ffrog briodas ei mam a gwisgodd goron o flodau gwyllt ar ei phen. Mi gawson nhw ddiwrnod perffaith yn y lle gorau'n y byd ac fe hoffai'r ddau ddiolch i gymuned Braichmelyn am ddathlu efo nhw o bell. Tynnodd dynes ddieithr luniau ohonynt a phostio copi iddyn nhw. Diolch hefyd i Mabli'r ci am fod yn hwyr ac am fod yn dyst i'r seremoni.

Meddai Gwenllan, "Er fod y cyfnod yma'n adeg anodd a thywyll y nein hanes mae'n bwysig dathlu'r pethau bychain – DAW ETO HAUL AR FRYN!



**Elwyn Jones & Co**

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000*



# Gohirio Prifwyl Ceredigion












Oherwydd y Clefyd Coronafeirws bu raid i drefnyddion yr Eisteddfod Genedlaethol ohirio'r ŵyl oedd i fod i gael ei chynnal yn Nhregaron ym Mis Awst. Er bod y trefnyddion, fel selogion yr eisteddfod ymhobman, yn siomedig na ellir cynnal eisteddfod 'go iawn' eleni maen nhw wedi cychwyn ar brosiect cyffrous newydd.

Bydd Eisteddfod AmGen yn cael ei chynnal yn ystod wythnos gyntaf Mis Awst a bydd y trefnwyr yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am yr ŵyl yn y dyfodol agos. Y bwriad ydy cynnal o leiaf un gweithgaredd AmGen y dydd o hyn tan yr Eisteddfod gan ddefnyddio nifer fawr o blatfformau. Bydd yr Eisteddfod yn cydweithio'n glos gyda'r wasg a chyfryngau eraill fel y radio a'r teledu, yn ogystal â phethau fel Gweplyfr (Facebook), Trydar (Twitter) er mwyn cynnig pob math o gynnwys i bobl o bob oed.

Bydd ambell ddigwyddiad mawr yn cael ei ddarlledu o dro i dro a'u gosod ar wefan YouTube a gwefan yr Eisteddfod fel bod modd eu gwylio eto. Ar ben hyn i gyd mi fydd yr Eisteddfod yn cydweithio gyda rhaglenni Heno a Prynhawn Da ynghyd â phapurau fel yr Herald Cymraeg, fel bod y cynnwys ar gael i gymaint o bobl â phosibl. Y gobaith ydy y bydd pawb yn gallu cael blas ar Eisteddfod AmGen dos yr haf eleni.

Os oes gynnoch chi unrhyw syniadau am gynnwys difyr a diddorol i'w ddefnyddio ar brosiect AmGen cysylltwch â'r trefnwyr drwy ebost ar gwyb@eisteddfod.org.uk oherwydd maen nhw'n chwilio am bob math o syniadau i ddiddanu dros yr wythnosau nesaf.

Mae holl gynnwys AmGen ar gael yn rhad ac am ddim!

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Pawb yn Elwa

**gan Rob Evans o Gymdeithas Edward Llwyd**

Wel dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Wyth wythnos? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu i'r sefyllfa yn dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i, efallai dim ond un peth ond mae'r boen yn cynyddu bob dydd - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus fod gen i lond pen da o wallt ac os ydy o'n cael ei dorri'n gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn efo pob siop trin gwallt ar gau dw i'n gwybod yn iawn pa mor gyflym mae'n tyfu, ac mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr.

Yn yr ystafell ymolchi'r bore 'ma ces i sioc, roedd rhyw ddyn gwyllt yn syllu arnaf trwy'r drych, roedd ei ben wedi ei orchuddio gan gorongylch o wlân cotwm. Mae'n dechrau teimlo'n anghyfforddus, mae'n fy nghosi o gwmpas fy ngwar a dydy fy het ddim yn ffitio bellach.

Maen nhw'n dweud y siopau trin gwallt fydd yr olaf i ail agor a chlywais rywun yn sôn am rywbryd ym mis Gorffennaf. Mi fydda i allan o nghof ymhell cyn hynny!

Y bore 'ma roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu golau hardd. Roedd yr adar yn prysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Mwynhau'r achlysur. Dw i'n eistedd tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. "Sbïa ar y pen yna," dywedodd un "fydden ni ddim yn hir yn adeiladu nyth yn fanna!" "Ti'n iawn" meddai'r llall "mae digon o ddefnydd yna i greu nyth digon mawr i chwech o blant!"

Aethon nhw ymlaen i gynllunio eu dyfodol a finnau'n trio fy ngorau i ddangos dim diddordeb o gwbl ond roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Na fydda i ddim yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond roedd un ffordd y gallwn helpu, a helpu fy hun yr un pryd.

Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i dycio fo yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn ac yn cael parti.

A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus, bydd rhaid gwisgo het wrth gwrs ond erbyn mis Gorffennaf mi fyddaf yn barod i gael toriad go iawn.

Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir ac os nad ydych yn fy nghredu fi edrychwch ar Twitter achos ar ôl y parti mawr roedd y ddau aderyn lwcus a'r ffrindiau i gyd yn brysur ar Twitter ac yn twîtio'r stori i'r holl fyd.

Cadwch yn saff!

# Nant Ffrancon

**Ffôn Symudol i gleifion Ward Dulas**
Dywedodd Rachel Hughes bod pawb ar Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd yn diolch yn fawr iawn i Bwn Jackson o Braich Tŷ Du, Nant Ffrancon am ei rhodd o ffôn symudol i'r cleifion ar yr amser pryderus yma.

Mae Bwn wedi rhedeg 100k yn ystod mis Mai er gwaetha'r haul a'r gwres.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

## Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

**Byddwn yn ailgydio yn y drefn ar ôl i'r feirws fynd heibio.**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

# Cwis

## Adnabod Bro Llais Ogwan

Mae llythyren gyntaf pob ateb yn cael ei roi i chi, ond mae rhai o'r atebion efo mwy nac un gair.

A: Enillodd hon y fedal ryddiaith
B: Rhan o'r corff sy'n lliwgar
C: Pentrefyn ger Glasinfryn
D: Rhan o ddeuawd efo Iwcs
E: Merch a Mynydd
F: Arferai gorsaf drên fod yma
FF: Mae mwy nac un stryd yn Gerlan
G: Eglwys (2 ateb)
H: Symudodd hwn o Landderfel i Bendinas
I: Prifardd
J: Llyfr mawr y Plant (2 ateb)
L: Gwelwch Anwen, Carys, Christine,Dora, Jonathan ac eraill yma
LL: Cwmni drama
M: Anifail anwes heb wallt
N: Capel bach iawn yn cadw eich ymennydd yn saff
O: Dafydd
P: Modurdy
R: Mae plac i'r bardd yma yn Stad Coetmor
RH: Super Furry Animals (cyfenw)
S: John Ogwen
T: Tai ochor arall i'r afon
W: Pwy sydd wedi bod ddigon dewr i fynd ar hon?
Y: Meddygfa


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677
Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y
Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Ar y radio**
Mae rhaglenni radio Dei Tomos bob amser yn ddifyr a rhai wythnosau yn ôl roedd yn trafod y cais i wneud ardal y chwareli yn Ardal Treftadaeth y Byd. Cyfeiriodd at ardaloedd Dyffryn Ogwen, Dyffryn Peris, Dyffryn Nantlle a Ffestiniog. Soniodd hefyd am y modd y daeth Chwarel Dinorwig i ben yn sydyn yn 1969, roedd yn sioc i'r gweithwyr a'r ardal. Yn westai iddo roedd Cadi Dolen, Cae Glas, Curadur Amgueddfa Lechi Cymru a leolir yn hen safle gweithdy'r chwarel. Y llynedd cafwyd amryw o weithgareddau i gofio fod hanner can mlynedd ers cau'r chwarel. Ymchwiliodd Cadi i gefndir y diwedd sydyn ac roedd ffrwyth ei llafur i'w weld yn yr arddangosfeydd yn yr Amgueddfa. Gobeithio'n wir y bydd y cais yn llwyddiannus.

**Brysiwch Wella**
Cafodd Ceir Griffiths, Fferm Castell, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd rai wythnosau yn ôl. Gobeithio dy fod yn gwella. Hefyd cafodd Alun Williams,, Tyddyn Badin, ddamwain go ddrwg yn ddiweddar, pob dymuniad da i tithau hefyd. Tybed beth yw tarddiad yr enw Badin?

**Cymorth Cristnogol**
Mis y mêl oedd Mai i Eifion Wyn ac i lawer ohonom mae hefyd yn fis yr amlen goch, sef y casglu tuag at elusen Cymorth Cristnogol. Eleni, oherwydd y cyfyngiadau yn dilyn y coronavirus nid yw'n bosibl casglu o dŷ i dŷ ac y mae hyn yn golled enfawr i'r elusen. Fodd bynnag, y mae'n bosibl cyfrannu ar y we, ac mae'r manylion i'w cael ar wefan Cymorth Cristnogol.

**Cyfyngiadau a Rhyddid**
Tra bod gyfyngiadau arnom ni fel pobl, mae'r anifeiliaid yn cael dipyn mwy o ryddid. Mae geifr y Gogarth wedi bod yn hynod o boblogaidd ar y teledu ac yn ddiweddar mae geifr gwyllt Llanberis wedi ymddangos, nid ar y stryd ond ar lwybrau cyfagos. Yn Wrecsam mae'n debyg fod llwynogod a moch daear yn ymwelwyr cyson yn y gerddi a'r garddwyr yn fflamio. Hefyd, gwelwyd dau baun yn cerdded ar y stryd ym Mangor. Yn amlwg mae'r strydoedd tawel yn denu'r anifeiliaid. Tybed be welwn ni nesa'?

**Oedfa Foreol**
Gyda'r capeli a'r eglwysi ar gau mae sawl un, a finnau yn eu plith, yn gwerthfawrogi'r Oedfa Foreol am 11 o'r gloch bob bore Sul ers y Cloi Mawr. Cwmni Rondo gafodd y syniad a llawer o ddiolch iddyn nhw.

**Cofio'r Ail Ryfel Byd yn dod i ben**
Cafwyd sawl rhaglen am ddiwedd y rhyfel gan ddangos yr erchyllterau a'r dioddefaint. Bu tri ewythr i mi, brodyr fy mam yn y rhyfel, aeth Dafydd i'r Ffiwsilwyr Cymreig, Robin i'r Gwarchodwyr Cymreig a John yr hynaf o'r tri i'r Llu Awyr a threuliodd beth amser yng ngogledd yr Alban ar Ynysoedd Erch. Fe ddaeth y tri adref yn ddiogel, diolch byth. Ni chlywais yr un o'r tri yn sôn am eu profiadau ac un felly oedd y diweddar Robert Daniel hefyd. Un ffaith a glywais ganddo oedd ei fod mewn ysbyty yn ninas Napoli (Naples) pan ffrwydrodd y llosgfynydd Feswfiws (Vesuvius) yn 1944. Cefais lyfr gan weddw Uncle John, 'Y Ddolen' yw teitl y llyfr, Chweched Llyfr Anrheg, Cyfres y Cofio ac ar y dudalen flaen mae'n dweud "Cyflwynedig i John Williams, RAF, Capel Peniel ,Waun Pentir. Tybed ai'r capeli a'r eglwysi oedd yn enwebu'r rhai oedd i dderbyn y llyfrau yma? Daeth y syniad i gael y llyfrau oddi wrth ddarlithwyr Prifysgol Bangor ac roedden nhw am i bob Cymro a Chymraes a aeth oddi cartref oherwydd y rhyfel dderbyn copi. Oes gan unrhyw un arall wybodaeth am y llyfrau yma?

Roeddwn yn awyddus i weld y gofeb i gofio'r rhai a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Yn yr ysgol y mae un gofeb farmor ddu ar siâp calon. Dau enw sydd arni, Thomas Hughes Bryn Awel, Rhiwlas a Trefor Owen, Cefn Braich, Rhiwlas. Mae cwpled arni hefyd :

**Hiraeth y byw wrth eu bedd,**
**A ofyn am dangnefedd.**
**R. L. W.**

Byddai gwybodaeth am y ddau yma'n dderbyniol iawn.

**Merched yr Awr**
Rhaglen oedd hon yn dathlu rhai o artistiaid benywaidd mwyaf blaenllaw Cymru gyfoes. Yn y rhaglen cawsom gipolwg ar fyd cerddorol Alys Williams, Casi Wyn, Catrin Hopkin a Lleuwen Steffan sy' bob amser yn sôn am Riwlas a dylanwad y pentref arni. Dywedodd mai'r Ysgol Sul yng Nghapel Pisgah oedd y dylanwad cyntaf arni. Roedd yr aelwyd yn gerddorol, ei thad Steve Eaves a'r cerddorion amlwg oedd yn ymweld â'r cartref ac roedd yn dweud ei bod yn ffodus i gael cwmni mor amryddawn. Dywedodd fod y mynyddoedd o'i chwmpas wedi bod yn ysbrydoliaeth iddi. Fe aeth i Lydaw i wneud un "gig" ond fe ymsefydlodd yno, magu dau o blant a dysgu Llydaweg. Mae am ddod yn ôl i fyw i Riwlas rhyw ddiwrnod ac fe fyddwn yn falch o dy gael yn ôl Lleuwen.

**Profiadau Gruffudd yn ystod y cyfnod yma**
Yn Rhifyn Mis Ebrill fe gafwyd gwybod sut roedd pedwar oedolyn yn ymateb i'r Clo Mawr ac i'r hunan ynysu. Y mis yma mae Gruffudd, disgybl ysgol, yn sôn am ei brofiadau ef a diolch iddo fo am gytuno i gyfrannu.
Cofion atoch i gyd a chadwch yn ddiogel.



Helo! Fy enw i yw Gruffudd Jones o Rhiwlas, dwi'n 12 oed ac yn byw efo fy mrawd bach Cynan a Mam. Mae Mam yn nyrs yn Ysbyty Gwynedd ac yn gorfod mynd i'w gwaith pob dydd ac am bod Nain yn hunan ynysu, mae Cynan a fi yn gorfod mynd i Ysgol Rhiwlas bob dydd. Mae o'n gallu bod yn reit ddiflas yna pob dydd ond o leiaf dwi'n cael help efo fy ngwaith ysgol! Dwi wedi dechrau helpu Mr Davies edrych ar ôl y cwch gwenyn yn yr ysgol ac yn edrych ymlaen at hynny. Dim ond 3 ohonom sydd yn mynd i'r ysgol felly mae hi'n rhyfedd o ddistaw yna. Ma' Cynan a fi yn cael yr iard chwarae i gyd i ni ein hunain. Tydi Cynan ddim yn meindio mynd i'r Ysgol ond dwin meddwl baswn i'n licio bod adref fel y rhan fwyaf o fy ffrindiau.

Dwi'n hoffi scooters ac yn methu cael mynd i'r skate park, mae scwtio yn Rhiwlas yn anodd am bo' ni ar allt! Ond mae 'na amball le fflat i fi a Cynan fod ar ein scooters. Mae Cynan a Mam a fi wedi bod yn mynd am dro yn amal ar Moelyci, ac wedi ffeindio llwybrau newydd a rhai oedd Mam wedi anghofio am! Mae'r tywydd wedi bod mor braf i ni gael bod allan a dwi di bod yn helpu Mam efo'r pressure washer ar y patio.

Da ni wedi bod yn gneud "Clap for Carers" bob wythnos ... nesi falu llwy bren ar y sosban un wythnos. Mae'n bwysig diolch i bobol sydd yn helpu eraill. Mae 'na lot o swn wedi bod yn Rhiwlas!!


Dwi wedi cael penblwydd "lockdown" wythnos dwethaf oedd yn wahanol ac yn rhyfedd heb deulu a ffrindiau a dwi byth isho un fel'na eto! Rydym ni hefyd wedi colli allan ar wyliau yn Ffrainc efo'r teulu, dwn im pryd gawn ni fynd nesaf, da ni'n hoffi mynd i Tŷ Nain yn Ffrainc! Tydi hi ddim yn edrych fel y byddan ni'n cael mynd i gampio efo ffrindiau ni o dde Cymru yn ystod yr haf chwaith sydd yn drist.

Mae hi'n hawdd cadw mewn cysylltiad efo'r teulu ar Facetime. Ar fy mhenblwydd mi gafon ni gêm o Kahoot, oedd Mam wedi neud cwis efo cwestiynau amdana fi! Oedd o'n hwyl chwarae o efo fy nghefndryd a cyfneitherod ar facetime. Da ni hefyd wedi gneud facetime Bingo!! Dwi hefyd yn chwara Minecraft efo nhw ac efo ffrindiau ar lein.

Dwi wedi diflasu ar glywed am Coronavirus rwan, ar y dechrau mi roeddwn yn hoffi gweld y newyddion a dysgu am y feirws ond ddim rwan.

Dwi'n edrych ymlaen at gael mynd nôl I'r ysgol, i'r parc sglefrio a gweld pawb eto!

# Yn yr Ardd



Dyma'r haf wedi cyrraedd ac mi fydd y dydd hiraf a throad y rhod yma'n fuan! Mae'r holl oleuni ychwanegol a'r gwres yn golygu bod planhigion yn eu tymor tyfu ac mae hynny'n amlwg ym mhob cornel o'r ardd. Ond mae'r goleuni a'r gwres hefyd wrth fodd y chwyn – felly cadwch yr hof yn brysur.
Gyda llaw, ni ddylid defnyddio'r hof ar y gwely nionod gan eu bod yn gwreiddio'n agos i'r wyneb. Chwynnu gyda'r dwylo amdani felly ac os ydych chi am arbed eich cefn, rhowch glustog dan y pengliniau!

**Tasgau**

1. Hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth.
2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Mae un drochfa dda yn well na sawl un ysgafn ac mae'n well gwneud hynny pan fo'r haul wedi gwanio.
3. Ewch i chwilio am y 'lladron' ar y tomatos yn gyson. Dydyn nhw'n gwneud dim ond dwyn nerth y planhigyn.
4. Bydd letus, rhuddygl [radish], nionod mân a thatws cynnar yn barod i'w bwyta.
5. Gosodwch y basgedi crog yn eu lle a llenwch eich potiau gyda blodau. Ar ddiwrnod poeth, mae rhai yn eu dyfrio gyda chiwbiau rhew.
6. Torrwch y lawnt bob wythnos.
7. Plannwch weddill y blodau blwyddol.
8. Defnyddiwch gansen os oes gennych blanhigyn gwan a hirgoes.
9. Gallwch docio llwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
10. Mae rhai garddwyr yn gosod cysgod ar y tŷ gwydr rhag iddo orboethi.

- Cysgodwch eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Mae awyru yn bwysig - hynny yw, agor neu gau'r ffenestri a'r drws fel bod angen.
- Yn hytrach na gosod darnau o botiau pridd ar waelod eich potiau defnyddiwch bolystyrene er mwyn cael draeniad effeithiol ac, wrth gwrs, mae'r potiau yn ysgafnach i'w trafod.
- Taenwch ddyrnaid o wrtaith dros fylbiau'r gwanwyn a'u cadw yn y pridd nes i'r dail wywo.
- Chwynnwch yn ofalus rhwng ac o amgylch eich pys a ffa a'r ffa dringo a gwnewch hyn yng ngwres yr haul. Gallwch eu dyfrio ar ddiwedd y dydd.
- Erbyn hyn fe all eich planhigion tyner ifainc fynd allan i wres yr haul, ond bydd angen eu gwylio a'u dyfrhau yn gyson nes iddynt sefydlu.
- Mae'n bwysig iawn i binsio blaen dyfiant llwyni fel fuchsia rhag iddynt fynd yn hirgoes; fe fydd mwy o flodau wedyn.




# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



## Cwpledi cofiadwy 1

Yn dilyn yr ychydig ddarnau barddoniaeth a gyflwynais i ddarllenwyr y golofn hon yn rhifyn mis Mawrth *Llais Ogwan*, a'r ychwanegiad (a'r cywiriad) a gynhwysais y mis d'wetha', ac o glywed i sawl un gael pleser o ddarllen rhai o'r cerddi, penderfynais dynnu sylw'r mis hwn at ddyrnaid o gwpledi sydd wedi gwneud argraff arna' i.

**A gwir yw nas gŵyr yr iach**
**Y gofid a gâi afiach.**
Evan Evans (Ieuan Fardd)

**Ba enaid ŵyr ben y daith? –**
**Boed anwybod yn obaith.**
R. Williams Parry

**Baich yw y byd heb iechyd,**
**Er ei gael yn aur i gyd.**
Huw Davies Richards (Caswallon Machno)

**Be na bai un bai'n y byd**
**Beiem undonedd bywyd.**
T. Gwynn Jones

**Cân i gyd yw'r byd lle bo**
**Dau enaid wedi uno.**
J. J. Williams

**Da yw cofio nad cyfoeth**
**A wna un dwl yn ddyn doeth.**
Iorwerth H. Lloyd (Talfryn)

**Duw biau edau bywyd**
**A'r hawl i fesur ei hyd.**
Anhysbys

**Edrych yn iau na'i hoedran**
**Yw hobi merch ym mhob man.**
Iorwerth H. Lloyd (Talfryn)


**Ef a ŵyr feiau arall**
**I'r eiddo'i hun sy'n llwyr ddall.**
Dewi Phillips (Dewi o'r Glyn)

**Er a fydd o grefydda**
**Mae mwy o dduw mewn mam dda.**
O. M. Lloyd

## Ysgol Bodfeurig




Rhai o’r plant gyda’u teisennau




Y disgyblion gyda gwahanol dasgau


## Calendr Llais Ogwan 2021

Lluniau ar gyfer Calendr 2021 i'w cyflwyno erbyn **DIWEDD GORFFENNAF 2020**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.

**Lluniau mewn fformat tirlun**

- *Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt a nodi lle y cymerwyd y llun.*
- *Gallwch hefyd roi teitl i'r llun, eich cyfeiriad a'ch enw.*

Trwy ebost at: calendr2021@outlook.com



**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

## CHRIS GRIFFITHS CYF

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

# Nyth y Gân

**Coeden Geirios yn y Gwanwyn**
Heddiw mae'r geirioswydden – yn harddu
Ein gerddi mor llawen;
Gemau ei blodau'n gymen,
A sbri conffeti ei phen.



**Clychau'r Gog**
Y tlysau o glychau glas – ddaw'n newydd
Yn naear y foelas;
Y chwil drwch o uchel dras
Yn eu harddwch a'u hurddas.

**Gwynedd**
Teyrnas Gwynedd fawreddog, – â'i llethrau
Yn llathraidd, odidog;
Rhag gelyn bu'r glyn a'r glog
Yn anwesu tywysog.

**Yr Ardd**
Mae'r ardd yn ddrych o harddwch, – o'r priddoedd
Daw'r pereiddiaf degwch;
Yn ei dro daw'r twf yn drwch,
Yn frodwaith o hyfrydwch.

**Y Bryniau Teg**
Yn raenus dyma'r bryniau – yn gwisgo
Gwasgod o liw gwinau;
Mewn mwyn hin, man mwynhau
Eu hud a'u rhyfeddodau.

**Cynefin**
Hwn yw man fy myw innau, – a hanfod
Bychanfyd fy nyddiau;
Arhosaf yn lli'r oesau
Yn llawn nwyf, a llawenhau.

**Goronwy Wyn Owen**

**'Ffermwr a chi defaid ar fryn'**
(paentiad Kyffin Williams)

Bu galed y bugeilio â'r llethrau
Mor llithrig i'w troedio;
Eu dal wnaeth ei baentiad o,
Dyna gafwyd in gofio.



**Yr Ysgolion Duon**
Mae nodded y mynyddoedd yn aros
Wedi'r hir ganrifoedd;
Mur uwch y waun, mor wych oedd
Yr ias o'u gweld drwy'r oesoedd.

**Dail y Gwanwyn**
Y ddeilen irlas welais
Yn ysgwyd uwch fy mhen,
A nifer o'i chyd-ddawnswyr
Yn fywiog hyd y pren.

Ar denau adain ydoedd
Holl ddail y goeden hon
Yn chwarae 'mysg y brigau
Gan wneud im deimlo'n llon.

Eu symud hynod heini
Yn donnau gan greu llen
Oedd yno'n wych o ddarlun
O'r llawr i'r uchel nen.

Y cyfrwys dderyn ddaru
Weld cyfle i wneud nyth,
'R ôl dod o hyd i gymar
Aeth yno'n chwim yn syth.

A theulu'n gadarn godwyd
Dan ddail mewn cuddfan fach,
A braf oedd gweld y cywion
Mor fyw, yn gryf ac iach.

**Prentis Gof**
Dan lygad un profiadol y dysgodd
Drwy dasgau hynafol;
Llawn ei waith ymhell yn ôl
Yn yr efail gartrefol.

**Dafydd Morris**

# Enwau Dyffryn Ogwen

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan Enwau Dyffryn Ogwen.) Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn na therfynol, gan yr ychwanegir ati o dro i dro. Yn gyffredinol, NI chynhwysir enw nad oedd yn bodoli yn y dyffryn cyn 1850

**Mae trafodaeth fanwl ar nifer helaeth o'r enwau hyn yn y tudalennau perthnasol ar y safwe. ENWAU PENTREFI, FFERMYDD, TYDDYNNOD, DALIADAU**

**A**

**Abercaseg** ceg yr afon Gaseg (yn ei chymer gydag Qgwen)
**Abercegin** ceg yr afon Cegin
**Aberogwen** ceg yr afon Ogwen
**Afon Caledffrwd** afon efo dŵr yn uchel mewn calch, neu soda
**Ocar** (enw lleol ar Caledffrwd) clai coch, neu felyn, sy'n cael ei ddefnyddio wrth wneud paent.
**Cegin** 1. Oherwydd ei bod yn codi yn Ffynnon Cegin Arthur Llanddeiniolen
2. afon lle mae llawer o'r planhigyn 'cegid y dŵr' (water hemlock) yn tyfu ynddi
**Ogwen** < Ogwan < Ogfanw = afon sy'n tyrchu ei ffordd trwy'r tir fel mochyn

**B**

**Bethesda** o'r Hebraeg/ Aramaeg 'beth-saida' = ty hela, ty pysgota
**Blaen y Nant** Ble mae Nant Ffrancon yn cychwyn
**Bodfeurig** cartref/ preswylfa Meurig
**Braichmelyn** rhan o fynydd sy'n ymestyn allan, a thyfiant melyn drosto
**Braich Tŷ Du** rhan o fynydd sy'n ymestyn allan sy'n eiddo i Tŷ Du
**Bryn Bela** bryn ble mae bele goed yn niferus
**Bryn Cocyn** bryn sydd ar ffurf cocyn
**Bryn Cul** bryn llwm, digynnyrch
**Bryn Eira** bryn gwyn, neu ble mae eira yn disgyn gyntaf
**Bryn Eithin** bryn ag eithin yn tyfu arno
**Bryn Hafod y Wern** bryn sy'n eiddo/ neu'n lleoliad i hafod y wern

**Bryn Llys** bryn ble mae llys, neu yn ymyl llys, neu'n eiddo i lys
**Bryn Rhwydd** bryn agored (hawdd ei gerdded)
**Bryn Twrw** bryn y bu helynt/ dadlau/ ymrafael/ ffraeo yn ei gylch rywdro,
**Bronnydd** ochrau bryniau ( ben. Bryn )
**Bwlch Ymolchi** bwlch Llanylchi/ ynylchi?


Mwy y mis nesa'.

# Cyfri'n Cewri

## gan Gareth Ffowc Roberts

**Bydd 'Cyfri'n Cewri, Hanes Mawrion ein Mathemateg' gan Yr Athro Gareth Ffowc Roberts yn ymddangos ym Mis Gorffennaf eleni**

Dyma'r llyfr perffaith i ddisgyblion ysgol a phawb sydd eisiau dysgu am waith mathemategwyr nodedig Cymru, a fydd yn ei dro yn ysbrydoli cenhedlaeth newydd o fathemategwyr.




Dyma sylwadau nifer o wahanol bobl i'r gyfrol:

**Dawn i egluro**
'Petawn i wedi cael Gareth Ffowc Roberts yn athro, rwy'n grediniol y byddai fy myd-olwg yn wahanol. Mae ganddo'r ddawn brin o egluro "rhyfeddod y cread" mewn dull hynaws ac agos atoch. Gwnaeth i fathemateg Cymru yr hyn a wnaeth Peter Lord i gelf Cymru – cryfhau ein ymwybyddiaeth o gewri ein gwlad, ac ymfalchïo ynddynt.'
**Angharad Tomos, awdures**

**Gwneud Mathemateg yn berthnasol**
'Gwych oedd cael f'atgoffa gan y gyfrol ryfeddol yma fod mathemateg yn perthyn i ni gyd ac yn rhan o'n hanes cenedlaethol. A gwych hefyd ydi gweld yr awdur ar ei orau yn gwneud mathemateg yn berthnasol, hygyrch a hynod ddiddorol hyd yn oed i glown fel fi.'
**Tudur Owen, comedïwr a darlledwr**

**Allweddol**
'Fe ddylai hwn fod ar silff lyfrau unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes Cymru, oherwydd mae gorchestion ein mathemategwyr yn rhan mor bwysig o'r hanes hwnnw, ac yn allweddol i'n dealltwriaeth o'n byd ni heddiw.'
**Dr Elin Jones, hanesydd ac addysgwr**

**Dylai ein mathemategwyr gael yr un sylw â'n llenorion a'n cantorion.**
'Cyfrol ddifyr sy'n amlygu cyfraniad anhygoel rhai o'r Cymry i ddatblygiad mathemateg. Dyma gyfrol bwysig sy'n rhoi'r sylw teilwng i rai o'n mathemategwyr mwyaf nodedig, pobl a ddylai gael yr un sylw a rhai o'n llenorion a'n cantorion enwocaf.'
**Dr Tudur Davies, Prifysgol Aberystwyth**

**Casgliad cyfoethog**
'Casgliad cyfoethog o hanesion mawrion mathemateg ein cenedl. Campwaith arall gan yr awdur – mae'r straeon yn eich tynnu i mewn i ddysgu rhywbeth newydd am bob un o'r deuddeg arwr o fewn y cloriau. Paid â bod ofn ei ddarllen!' -
**Dr Gareth Evans, Ysgol y Creuddyn**

**Cyfrol ddifyr**
'Clamp o gyfrol ddifyr sy'n goglais ein diddordeb mewn pobl a byd prydferth mathemateg fel ei gilydd. Dyma stori'r Cymry a mathemateg, ac ry'n ni i gyd yn rhan o'r hafaliad. Wele ryfeddod y rhifau a'u rhin.'
**Elinor Wyn Reynolds**

# Plasty Canoloesol y Coetmor


**(Diolch i John Llywelyn Williams a Lowri Williams am y wybodaeth ganlynol allan o'u gwefan Hanes Dyffryn Ogwen)**

Yn y Canol Oesoedd, prif sefydliad bonheddig Dyffryn Ogwen, ar wahân i Blas Penrhyn a Chochwillan, oedd Coetmor, cartref hen deulu pendefigaidd a allai olrhain eu tras i deulu a disgynyddion Ednyfed Fychan, distain* Llywelyn Fawr. Chwaraeodd aelodau'r teulu ran flaenllaw mewn gwleidyddiaeth leol yn ystod y Canol Oesoedd yng Ngwynedd, ac ar brydiau mae cyfeiriadau atynt yn ymgymryd â swyddogaethau yn Lloegr. Cofnodir, er enghraifft, fod Madog Coetmor yn brwydro ar ran Rhisiart III ym mrwydr Bosworth yn 1485, y brenin y cafwyd hyd i'w fedd di-nod ar ddamwain o dan faes parcio dinesig yng Nghaerlŷr yn ddiweddar.

Erbyn 1866, yr oedd y tŷ yn adfail a rhan o'r adeilad wedi disgyn er fod un teulu tlawd yn dal i lechu ynddo. Meddai Hugh Derfel Hughes wrth ddisgrifio'r tŷ yn 1866 '...yn lle odlau beirdd, a llais telynorion, a chrythwyr; nid oes yno heddyw ond aderyn y to, y cawci a'r ddallhuan, yn meddianu y lle'.

Chwalwyd yr hen blasty yn 1870 ac fe adeiladwyd fferm bresennol Coetmor ar y safle.

***Distain = prif gyfrifydd**



# Murlun ym Methesda SIOP OGWEN

Yn dilyn ymateb cadarnhaol i gael murlun ym Methesda mae'r safle wedi ei ddewis. Y bwriad oedd cynnal Gweithdy Syniadau yn lleol i gael eich barn chi.

Wrth reswm nid yw hyn yn gallu digwydd ar y funud oherwydd Covid-19, ond ar yr un pryd rydan ni'n awyddus iawn i symud ymlaen gyda'r murlun.

Gofynnaf felly i chi yrru eich syniadau er mwyn i'r arlunydd allu creu cynlluniau i ni.

Gall hyn fod yn syniadau llafar neu ar ffurf llun. Rhaid cofio bod hwn yn waith comisiwn ar gyfer Cais Safle Treftadaeth y Byd-Ardaleodd Llechi Gwynedd, felly mae hanes Llechi, Y Chwarel a datblygu Bethesda yn bwysig. Unwaith bydd cynlluniau wedi dod yn ôl gan yr arlunudd byddaf yn eu rhoi allan i bleidlais ar Facebook ag i chi ar ebost. Mae angen gyrru eich syniadau i siop@ogwen.org neu Cynghorydd. rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru

Mae Siop Ogwen hefyd yn cymryd archebion llyfrau ac yn eu danfon i ddalgylch Dyffryn Ogwen. Mae modd i chi edrych ar gwales.com i weld pa lyfrau fedrwch chi eu harchebu cyn gyrru eich archeb i siop@ogwen.org. Mae'r archebion yn cael eu gosod bob Dydd Gwener.

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,

**Sesiynau i blant bach ar Facebook**

Credais y byddai gan rai o blith darllenwyr eich cyhoeddiad ddiddordeb mewn gwasanaeth newydd sy'n cael ei ddatblygu gan Mudiad Meithrin ar gyfer plant bach a'u teuluoedd.

Yn ystod cyfnod di-gynsail pandemig y Coronafeirws, mae Mudiad Meithrin yn cyfrannu at weithgarwch Cymraeg yn y cartref trwy ddarparu sesiynau agored dan faner 'Clwb Cylch' (#ClwbCylch) i blant oedran Cylch Meithrin (plant dan 5 mlwydd oed ar y cyfan).


Bydd y sesiynau, sy'n cychwyn ar Fehefin 1af am 10.00, yn agored i bawb ac fe fydd yn gyfle da i blant a'u rhieni glywed y Gymraeg yn aml tra byddant yn aros adre. Bydd hwn hefyd yn gyfle da i blant gael blas ar gynnwys sesiwn Cylch yng nghwmni arweinyddion Cylch Meithrin profiadol (gan gynnwys Wendy Phillips o Gylch Meithrin Crymych) I weld y sesiynau, ewch i Facebook.com/MudiadMeithrin

Yr eiddoch yn gywir,

**Dr Gwenllian Lansdown Davies**

Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

Bydd Clwb Cylch yn cael ei gynnal am gyfnod o fis i ddechrau felly bydd yn cael ei gynnal trwy fis Mehefin a bydd trefnwyr y Cylch yn edrych ar y sefylfa wedi hynny oherwydd does neb yn gwybod beth fydd yn digwydd ar ôl hynny.




## Gwis Atebion

**Atebion i Gwis Llais Ogwan Mis Mai**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| A: | Arafa Don | B: | Bydded Goleuni | C: | Cochwillan |
| CH: | Chwarel Goch | D: | Dafydd | E: | Eisteddfod Dyffryn Ogwen |
| F: | Fred Buckley | FF: | Ffrydlas | G: | Gorffwysfan |
| H: | Hendyrpeg | I: | Idris Foster | J: | John Huw Evans |
| L: | Lisa Jên | LL: | Llechid | M: | Mabinogion |
| N: | Neville Hughes | O: | Owain Arwel Davies | P: | Pantdreiniog |
| R: | Rallt | RH: | Rhyd y Groes | S: | Steffan |
| T: | Thomas Telford | U: | Un Nos Ola Leuad | W: | William Griffith |